## GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL CYMRU (WGOS)

# LLAWLYFR GWASANAETH: WGOS 1 A 2

DYDDIAD GWEITHREDU: 21 HYDREF 2023

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu strwythur sy'n caniatáu cyflawni WGOS 1 a 2.

Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r lefelau WGOS er mwyn sicrhau unffurfiaeth o ran disgwyliadau ar gyfer pobl Cymru.

Nid yw'n cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

**Dolenni defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| I weld fersiwn diweddaraf y Llawlyfr Clinigol WGOS hwn | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Sut i gofrestru i ddarparu WGOS | https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ |
| Ymholiadau am hyfforddiant, cyrsiau ac asesiadau | heiw.optometry@wales.nhs.uk |
| Ymholiadau am dalu a chofrestru | nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk |
| Cwestiynau yn ymwneud ag WGOS | GOSWClinical.Lead@wales.nhs.uk |

**Rhybudd:**

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ am y fersiwn gyfredol.

Cyhoeddir y llawlyfr hwn cyn y diwygiadau rheoleiddiol sydd i'w gosod gan Lywodraeth Cymru yn y Senedd ym mis Medi 2023. Ewch i https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/ i weld y newidiadau ar ôl gosod y rheoliadau.

# Gwybodaeth am Wasanaethau WGOS

> *Nod WGOS yw galluogi mwy o gleifion i gael eu rheoli o fewn gofal sylfaenol, gan leihau'r galw am ofal eilaidd.*
>
> *Bydd gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol yn cael eu darparu drwy bum lefel gwasanaeth.*

Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol yn 2023, disodlodd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Cymru) (GOS[W]), Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), Gwasanaethau Golwg Gwan Cymru (LVSW), a llawer o lwybrau gwasanaeth gwell lleol amrywiol.[1].

Mae'r dogfennau canlynol yn sail i'r newidiadau deddfwriaethol.

- Cymru Iachach: Law yn Llaw at Iechyd 2017
- Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol 2021
- Datganiad y Gweinidog, Hydref 2022

Roedd cyflwyno WGOS yn uno saernïaeth, llywodraethu a gwerthuso gwasanaethau ledled Cymru er mwyn darparu gofal yn nes at y cartref a sicrhau mai dim ond pan fo angen y mae pobl yn mynychu gofal eilaidd.

Mae WGOS yn wasanaeth haenog sy’n cynnwys:

- **WGOS 1** archwiliad llygaid sy’n cynnwys prawf golwg (fel y’i diffinnir gan Ddeddf Optegwyr 1989 (legislation.gov.uk) gyda darpariaeth atal a llesiant wedi’i ymgorffori er mwyn creu cynllun rheoli claf sy’n benodol ar gyfer y claf.
- Mae **WGOS 2** yn caniatáu i dri gwasanaeth gofal llygaid gwahanol gael eu cwblhau mewn gofal sylfaenol:
  - Band 1: Gofal llygaid acíwt a derbyn atgyfeiriadau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
  - Band 2: Archwiliad pellach i hysbysu neu atal atgyfeiriad
  - Band 3: Dilyniant hyd at Fand 1 ac Asesiad Ôl-gataract
- Mae **WGOS 3** yn galluogi cleifion a fyddai’n elwa o gymhorthion optegol a rhai nad ydynt yn optegol yn ogystal â chymorth adsefydlu cyfannol (gan gynnwys cofrestru nam ar y golwg) a chyngor er mwyn cael mynediad at wasanaeth golwg gwan yn eu man preswylio neu’n agos ato. Mae WGOS 3 hefyd yn cynnwys Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI(W)).
- **WGOS 4** – gwasanaeth lle mae cleifion a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio at/neu eu rheoli o’r blaen yn y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn lle hynny’n aros mewn gofal sylfaenol ar gyfer asesiad manylach pellach fel rhan o lwybr monitro neu fireinio atgyfeirio y cytunwyd arno.

[1] *Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) yn dal ar wahân i WGOS ac yn cael ei oruchwylio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

- **WGOS 5** – darparu gwasanaethau gofal llygaid mewn gofal sylfaenol sy'n gofyn am Optometrydd/Ymarferydd Meddygol Offthalmig sy'n rhagnodwr annibynnol i reoli, trin a monitro cleifion er mwyn atal eu hatgyfeirio ymlaen
- **Talebau Optegol WGOS)**– darparu dyfeisiau optegol

Bydd y llawlyfr yn cael ei adolygu yn unol â chyfarwyddyd deddfwriaethol, yn flynyddol a bydd newidiadau'n cael eu gwneud yn unol ag angen y gwasanaeth.

Er bod angen dull gweithredu unwaith i Gymru i sicrhau unffurfiaeth o ran disgwyliadau a chanlyniadau i gleifion, cydnabyddir y gallai arloesi er mwyn diwallu anghenion cleifion ar lefel Clwstwr neu Fwrdd Iechyd arwain at amrywiadau lleol yn y dyfodol. Bydd amrywiad yn cael ei gyfiawnhau a'i gytuno gan Fwrdd WGOS yn dilyn argymhellion gan Glystyrau, Byrddau Iechyd, Pwyllgorau Optegol Rhanbarthol a Chynghorwyr Optometrig. Dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o lwybrau o'r fath a'u protocolau / canllawiau.

Bydd yr holl Gontractwyr sy'n cynnig a phob Perfformiwr sy'n darparu gwasanaethau WGOS yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'r llawlyfr trwy e-bost. Mae gan y Contractwr gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio ar ei ran hefyd yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n cael eu cyfleu.

# Darparu a Chyflawni WGOS 1 a 2 Gorfodol

*Rhaid i Gontractwr feddu ar Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd priodol i ddarparu WGOS yn yr ardal honno.*

*Er mwyn cyflawni WGOS, rhaid i optometryddion, Ymarferwyr Meddygol Offthalmig ac Optometryddion sy'n Fyfyrwyr fod ar Restr Offthalmig Cymru.*

*I berfformio WGOS 2: Band 1 (problem acíwt gyda rhan blaen y llygad) a WGOS 2: Band 3 (dilyniant i broblem acíwt gyda rhan blaen y llygad Band 1), rhaid i Optegydd Lensys Cyffwrdd fod ar Restr Weinyddol Cymru.*

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu 'cydwasanaethau' i gefnogi saith Bwrdd Iechyd (BI) GIG Cymru. Maent yn darparu gwasanaethau contractwyr i'r Byrddau Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol, gan gynnwys rheoli contractau a rhestrau, prosesu taliadau a dilysu ôl-daliadau, ac arweinyddiaeth glinigol. Mae Rhestr Offthalmig a Rhestr Weinyddol Cymru yn cael eu cadw a'u cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

I ddarparu WGOS:

- Rhaid i Gontractwr feddu ar Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd priodol
- Rhaid cynnwys pob Optometrydd, Ymarferydd Meddygol Offthalmig ac Optometrydd sy'n Fyfyriwr ar Restr Offthalmig Cymru

Yn ogystal, dylid nodi:

- Rhaid i Optegwyr Lensys Cyffwrdd sy'n perfformio WGOS 2 fod wedi eu rhestru ar Restr Weinyddol Cymru
- Rhaid i Optegwyr Cyflenwi sy'n perfformio Gwasanaeth Golwg Gwan WGOS 3 fod wedi eu rhestru ar Restr Weinyddol Cymru
- Gall Optegwyr Lensys Cyffwrdd ac Optegwyr Cyflenwi ac nad ydynt yn cyflawni WGOS 2 neu WGOS 3 wneud cais i gael eu rhestru ar Restr Weinyddol Cymru

**NODER** nad yw bod â Chytundeb Gwasanaeth WGOS a chyflawni WGOS yr un peth. Rhaid i berchennog practis sydd â Chytundeb Gwasanaeth WGOS fel Contractwr hefyd fod ar Restr Offthalmig Cymru er mwyn gallu cyflawni WGOS.

# Cytundebau Gwasanaeth i ddarparu WGOS

*Rhaid i gontractwyr ar Restr Offthalmig Cymru ddarparu WGOS 1 a 2.*

*Pan fydd Contractwr yn dosbarthu offer optegol, rhaid iddo allu cynnig yr opsiwn o gyfarpar optegol sylfaenol wedi'i ariannu'n llawn gan GIG Cymru i gleifion sy'n gymwys i gael Taleb Optegol WGOS.*

*Rhaid i Gontractwyr a Pherfformwyr gadw eu rhestr wybodaeth yn gyfredol.*

*I ddod â'r Cytundeb Gwasanaeth i ben, dylai'r Contractwr roi o leiaf dri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd ei fod yn dymuno dod oddi ar y Rhestr Offthalmig.*

Rhaid i unrhyw Gontractwr sy'n dymuno darparu WGOS wneud cais (trwy PCGC) i'r Bwrdd Iechyd priodol i gael ei gynnwys ar y Rhestr Offthalmig. Rhaid i'r Contractwr hefyd gytuno i'r telerau gwasanaeth.

Rhaid i bob Contractwr gael Cytundeb Gwasanaeth WGOS ar gyfer pob Bwrdd Iechyd y maent yn dymuno darparu gwasanaethau ynddo.

Mae'n rhaid i Gontractwr sy'n darparu WGOS o safle sefydlog ac sydd hefyd yn darparu WGOS mewn lleoliad symudol, fod â Chytundeb Gwasanaeth Symudol.

**NODER** Rhaid i Ddarparwyr sicrhau bod ganddynt y Cytundeb Gwasanaeth priodol ar gyfer y lleoliad y maent yn cyflwyno'r episod WGOS ynddo.

Er mwyn darparu a sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal llygaid, mae'n orfodol, o dan y telerau gwasanaeth bod pob Contractwr ar Restr Offthalmig Cymru yn darparu WGOS 1 a WGOS 2.

Pan fydd Contractwr yn dosbarthu offer optegol, rhaid iddo allu cynnig yr opsiwn o gyfarpar optegol sylfaenol wedi'i ariannu'n llawn gan GIG Cymru i gleifion sy'n gymwys i gael Taleb Optegol WGOS.

Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'i Gytundeb Gwasanaeth wrth nodi'r oriau y bydd yn darparu WGOS 1 a WGOS 2 (y cyfeirir atynt fel 'Oriau Craidd y Contractwr').

Pan gyhoeddir Cytundeb Gwasanaeth WGOS newydd gan y bwrdd iechyd, bydd y Contractwr yn cael rhif. Rhaid cynnwys y rhif hwn ar bob hawliad WGOS a gyflwynir, fel bod y Contractwr yn cael ei dalu'n briodol.

## DIWYGIADAU I GYTUNDEB GWASANAETH WGOS

Rhaid i gontractwyr hysbysu'r Bwrdd Iechyd drwy PCGC am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau, yn enwedig unrhyw newidiadau yn y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol neu wybodaeth a gyhoeddwyd amdanynt. Mae cyfnodau hysbysu gwahanol yn berthnasol mewn amgylchiadau gwahanol (Gweler y tabl am enghreifftiau o ba bryd y mae angen hysbysu'r Bwrdd Iechyd a'r amserlen):

| Rhaid hysbysu Byrddau Iechyd pan fydd: | Cyfnod hysbysu |
|---|---|
| • Newidiadau i'r datganiad a wnaed gan y Contractwr<br>*e.e. euogfarn droseddol, rhybudd, cael ei gyhuddo o drosedd, unrhyw ymchwiliad gan ei gorff trwyddedu a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, ymchwiliad gan y Gwasanaethau Gwrth-dwyll ac unrhyw ganlyniad, ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall a allai arwain at ddiswyddo, neu os yw wedi wedi cael ei dynnu oddi ar, ei dynnu'n amodol neu ei atal o, neu y gwrthodwyd mynediad iddo, neu ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr gyfatebol arall* | 7 diwrnod |
| • Newid yn y cais cyn dyfarnu Cytundeb Gwasanaeth WGOS iddo | 7 diwrnod |
| • Newid(iadau) neu ychwanegiad(au) sy'n effeithio ar y manylion ar Restr Offthalmig Cymru | 14 diwrnod |

Rhaid rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd, drwy PCGC, am unrhyw darfu sylweddol ar ddarpariaeth WGOS, er enghraifft oherwydd salwch, ac eithrio ar gyfer gwyliau tymhorol neu grefyddol statudol neu a dderbynnir.

I derfynu Cytundeb Gwasanaeth WGOS, rhaid i'r Contractwr dynnu ei enw oddi ar Restr Offthalmig Cymru. Mewn achos o'r fath, rhaid rhoi o leiaf dri mis o rybudd i'r Byrddau Iechyd, er y gellir gwneud y cyfnod hwn yn fyrrach trwy gytundeb ar y cyd. Dylai'r Contractwr lenwi'r ffurflen Newid Statws, sydd ar gael gan PCGC.

## ADLEOLI PRACTIS

Pan fydd Contractwr yn dymuno adleoli ei eiddo i leoliad gwahanol, rhaid rhoi o leiaf 3 mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd, er mewn achosion eithriadol e.e. llifogydd yn y practis, gellir gwneud y cyfnod hwn yn fyrrach trwy gytundeb ar y cyd.  Dylai contractwyr lenwi'r ffurflen Newid Statws, sydd ar gael gan PCGC.

# Rhestr Offthalmig GIG Cymru

*Rhaid i Gontractwyr a Pherfformwyr gadw eu gwybodaeth yn gyfredol.*

*Mae'n ofynnol i Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr sy'n dymuno cael ei dynnu oddi ar Restr Offthalmig Cymru roi o leiaf dri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd.*

*Gall Optometryddion sy'n Fyfyrwyr gynorthwyo i ddarparu WGOS i'r graddau y bernir eu bod yn gymwys i wneud hynny ac o dan oruchwyliaeth Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig y mae ei enw wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru.*

*Ni all Optometrydd sydd newydd gymhwyso a/neu newydd gofrestru ddarparu WGOS hyd yn oed o dan oruchwyliaeth nes bod ei statws ar Restr Offthalmig Cymru wedi'i ddiweddaru.*

I gyflawni WGOS, rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr fod ar Restr Offthalmig GIG Cymru.

Mae dwy ran i Restr Offthalmig GIG Cymru:

- Rhestr Offthalmig: Contractwyr sy'n darparu WGOS
- Rhestr Atodol: Optometryddion / Ymarferwyr Meddygol Offthalmig / Optometryddion sy'n Fyfyrwyr sy'n cynorthwyo i ddarparu WGOS

## CAIS I YMUNO Â RHESTR OFFTHALMIG GIG CYMRU

I ymuno â'r rhestr hon, dylai'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr wneud cais i'r Bwrdd Iechyd trwy PCGC (nid yw bod ar Restr Offthalmig yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn caniatáu i Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr gyflawni WGOS, ac i'r gwrthwyneb).  Bydd gofyn i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr lenwi ffurflen a gofynnir iddo ddangos ei fod:

1. Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
2. Wedi'i hyfforddi'n briodol / yn gymwys i gyflawni WGOS 1 a 2

3. Yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol i gael ei restru ar Restr Offthalmig Bwrdd Iechyd yng Nghymru.
   Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r hyfforddiant WGOS gorfodol canlynol:
   a. Gwasanaethau Optometreg Cyffredinol Cymru – canllaw
   b. Hyfforddiant a gwaredu offer miniog, gan gynnwys atal a rheoli heintiau
   c. Hyfforddiant Gwella Ansawdd
   d. Hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)
4. Bod wedi cael Gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o fewn y 6 mis diwethaf
5. Yn meddu ar Yswiriant Indemniad
6. Yn gallu gweithio yn y DU

Bydd y Byrddau Iechyd yn gofyn am ddau eirda gan ganolwyr a all roi geirda clinigol yn ymwneud â dwy swydd glinigol ddiweddar (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf) fel Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig/ Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegwyr Cyflenwi a barhaodd o leiaf dri mis heb egwyl sylweddol. Ni ddylai'r canolwyr fod yn perthyn i'r ymgeisydd. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi esboniad llawn.

**NODER** Os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio geirda gan gofrestrai y mae wedi'i oruchwylio'n flaenorol, rhaid i'r canolwr fod wedi gweithio ochr yn ochr â'r ymgeisydd mewn swyddogaeth glinigol am o leiaf dri mis ar ôl dyddiad ei gofrestriad gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC).

Unwaith y caiff ei dderbyn ar Restr Offthalmig Cymru, gall ymarferydd ddarparu WGOS ar gyfer Contractwr mewn unrhyw ardal yng Nghymru.

## CYNNAL RHESTR OFFTHALMIG CYMRU

Mae'n rhaid i Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd trwy PCGC os bydd eu manylion yn newid, e.e. os ydynt yn symud tŷ. Bydd hyn yn sicrhau bod eu manylion cyswllt yn cael eu cadw'n gyfredol, a'u bod yn gallu derbyn cyfathrebiadau.

Mae hefyd yn ofynnol i Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd o unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau, yn enwedig unrhyw newidiadau yn y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol neu wybodaeth a gyhoeddwyd amdanynt. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, canfyddiad yn erbyn Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr yn dilyn ymchwiliad gan reoleiddiwr fel y GOC. (Gweler y tabl am enghreifftiau o bryd y mae angen hysbysu'r Bwrdd Iechyd a'r amserlen):

| Rhaid hysbysu Byrddau Iechyd pan fydd: | Cyfnod hysbysu |
|---|---|
| • Newidiadau i ddatganiad a wnaed gan yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr<br>*e.e. euogfarn droseddol, rhybudd, cael ei gyhuddo o drosedd, unrhyw ymchwiliad gan ei gorff trwyddedu a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, ymchwiliad gan y Gwasanaethau* | 7 diwrnod |

| | |
|---|---|
| *Gwrth-dwyll ac unrhyw ganlyniad, ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall a allai arwain at ei dynnu oddi ar restr, neu os yw wedi cael ei dynnu, ei dynnu'n amodol neu ei atal o unrhyw restr gyfatebol arall, neu y gwrthodwyd mynediad iddo, neu y cafodd ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr gyfatebol arall* | |
| • Newid yn y wybodaeth a gofnodwyd am yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr yn Rhestr Offthalmig Cymru<br>*e.e. Newid enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, man ymarfer, cymwysterau ychwanegol* | 28 diwrnod |

## DOD ODDI AR RESTR OFFTHALMIG CYMRU

Os yw Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwryn yn dymuno dod oddi ar Restr Offthalmig Cymru, mae'n rhaid iddo roi tri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd drwy PCGC, er y gellir gwneud y cyfnod yn fyrrach drwy gytundeb ar y cyd.

Gall Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr gael ei dynnu oddi ar Restr Offthalmig Cymru os nad yw wedi cyflawni WGOS yn ystod cyfnod o 12 mis yn unrhyw le yng Nghymru.  Bydd PCGC yn hysbysu'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr am hynny.  Ni chaniateir i unrhyw Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optometrydd sy'n Fyfyriwr sy'n cael ei dynnu oddi ar Restr Offthalmig Cymru fel hyn gyflawni gwaith WGOS cyn i'r gwaith o'u hailrestru gael ei gwblhau. Sylwch y gall gymryd sawl wythnos i ail-restru.

# Rhestr Weinyddol Cymru

*Rhaid i Gontractwyr, a Pherfformwyr gadw eu gwybodaeth ar y rhestr yn gyfredol.*

*Mae gan gontractwyrddyletswydd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r holl gofrestreion sy'n gweithio yn eu practis.*

*Rhaid i Optegydd Lensys Cyffwrdd sy'n dymuno darparu gwasanaeth gofal llygaid acíwt i ran blaen y llygaid o dan WGOS 2: Band 1 a/neu WGOS 2: Band 3 fod ar Restr Weinyddol Cymru.*

*Rhaid i Optegydd Cyflenwi sy'n dymuno darparu Gwasanaeth Golwg Gwan o dan WGOS 3 fod ar Restr Weinyddol Cymru.*

*Dylai Optegwyr Lensys Cyffwrdd ac Optegwyr Cyflenwi sy'n cyflawni WGOS 2 a/neu WGOS 3 sy'n dymuno tynnu eu henwau oddi ar Restr Weinyddol Cymru roi o leiaf dri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd.*

## CAIS I YMUNO Â RHESTR WEINYDDOL GIG CYMRU

Gall Optegwyr Lensys Cyffwrdd/ Optegwyr Cyflenwi sy'n gweithio i Gontractwr sy'n cynnig WGOS wneud cais i ymuno â Rhestr Weinyddol Cymru drwy wneud cais i PCGC. Bydd yn ofynnol i'r Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegydd Cyflenwi ddangos eu bod:

1. Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.
2. Yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol i gael eu rhestru ar Restr Weinyddol Bwrdd Iechyd yng Nghymru.
   Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r hyfforddiant WGOS gorfodol perthnasol fel y darperir gan AaGIC.

Rhaid i Optegydd Lensys Cyffwrdd/ neu Optegydd Cyflenwi sy'n dymuno cyflawni WGOS 2: Band 1 WGOS 2: Band 3 a/neu WGOS 3: Gwasanaeth Golwg Gwan, fod ar Restr Weinyddol Cymru a rhaid iddynt hefyd:

- Allu dangos eu bod wedi'i hyfforddi'n briodol / cymwys i gyflawni WGOS 2 a / neu WGOS 3
- Meddu ar Yswiriant Indemniad i ddarparu ar gyfer y cyfrifoldebau estynedig sy'n gysylltiedig â chyflawni WGOS 2 a/neu 3
- Gallu darparu dau eirda clinigol yn ymwneud â dwy swydd glinigol ddiweddar (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf) fel Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegydd Cyflenwi a barhaodd o leiaf dri mis heb doriad sylweddol. Ni ddylai'r canolwyr fod yn perthyn i'r ymgeisydd. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi esboniad llawn.
- Bod wedi cael Gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o fewn y 6 mis yn arwain at gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd i ddarparu'r gwasanaeth

## CYNNAL RHESTR WEINYDDOL GIG CYMRU

Dylai Optegwyr Lensys Cyffwrdd ac Optegwyr Cyflenwi hysbysu'r Bwrdd Iechyd drwy PCGC os bydd eu manylion yn newid, e.e. os ydynt yn symud tŷ. Bydd hyn yn sicrhau bod eu manylion cyswllt yn cael eu cadw'n gyfredol, a'u bod yn gallu derbyn cyfathrebiadau.

Dylai Optegwyr Lensys Cyffwrdd ac Optegwyr Cyflenwi hefyd hysbysu'r Bwrdd Iechyd am unrhyw newidiadau perthnasol yn eu hamgylchiadau, yn enwedig unrhyw newidiadau yn y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol neu'r wybodaeth a gyhoeddwyd amdanynt. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, canfyddiad yn erbyn Optegydd Lensys Cyffwrdd neu Optegydd Cyflenwi yn dilyn ymchwiliad gan reoleiddiwr fel y GOC. (Gweler y tabl am enghreifftiau o bryd y mae angen hysbysu'r Bwrdd Iechyd a'r amserlen):

| Rhaid hysbysu Byrddau Iechyd pan fydd: | Cyfnod hysbysu |
|---|---|

| | |
|---|---|
| • Newidiadau i'r datganiad a wnaed gan yr Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegydd Cyflenwi<br>*e.e. euogfarn droseddol, rhybudd, cael ei gyhuddo o drosedd, unrhyw ymchwiliad gan ei gorff trwyddedu a chanlyniad unrhyw ymchwiliad, ymchwiliad gan y Gwasanaethau Gwrth-dwyll ac unrhyw ganlyniad, ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall a allai arwain at ei dynnu oddi ar restr, neu os yw wedi cael ei dynnu, ei dynnu'n amodol neu ei atal o unrhyw restr gyfatebol arall, neu y gwrthodwyd mynediad iddo, neu y cafodd ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr gyfatebol arall* | 7 diwrnod |
| • Newid yn y wybodaeth a gofnodwyd am yr Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegydd Cyflenwi yn Rhestr Weinyddol Cymru<br>*e.e. Newid enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, man ymarfer, cymwysterau ychwanegol* | 28 diwrnod |

### DOD ODDI AR RESTR WEINYDDOL GIG CYMRU

Os yw Optegydd Lensys Cyffwrdd/ Optegydd Cyflenwi yn dymuno dod oddi ar Restr Weinyddol Cymru, mae'n rhaid iddo roi tri mis o rybudd i'r Bwrdd Iechyd drwy PCGC, er y gellir gwneud y cyfnod yn fyrrach drwy gytundeb ar y cyd.

# Cyflogi staff i ddarparu WGOS

*Rhaid i gontractwyr sicrhau bod gan yr ymarferydd sy'n cyflawni WGOS ar eu rhan y cymwysterau cywir ar gyfer darparu'r gwasanaeth.*

*Mae Contractwyr a Pherfformwyr yn atebol am holl weithredoedd a hegporiadau staff sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth (gan gynnwys Optometryddion sy'n Fyfyrwyr).*

*Mae gan gontractwyr ddyletswydd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r holl gofrestreion sy'n gweithio yn eu practis neu yn eu Gwasanaeth Symudol.*

O dan y rheoliadau, mae gan Gontractwyr gyfrifoldeb i wirio bod yr ymarferwyr sy'n cyflawni WGOS ar eu rhan:

1. wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
2. wedi'u rhestru ar Restr Offthalmig Cymru neu Restr Weinyddol Cymru
3. wedi'u hyfforddi'n addas a'u rhestru gyda PCGC i gyflwyno'r episod WGOS sy'n cael ei chyflawni a'i hawlio

### DIRPRWYO

Dirprwyo yw pan fyddwch yn gofyn i gydweithiwr ddarparu gofal neu gynnal gweithdrefn ar eich rhan. Pan fydd Perfformiwr yn dirprwyo gofal o dan WGOS, mae'n dal i fod yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y claf a rhaid iddo sicrhau bod y claf yn cael yr un safon o ofal ag y byddai'n ei ddarparu ei hun. Rhaid iddo fod yn fodlon bod gan y person y mae'n dirprwyo iddo y sgiliau a'r profiad i ddarparu'r gofal perthnasol neu i ymgymryd â'r driniaeth. Rhaid iddo aros ar y safle fel y gallai ymyrryd os oes angen. Ni

ddylai'r Perfformiwr ofyn i rywun nad yw'n gymwys ddehongli unrhyw ganfyddiadau clinigol.  Rhaid i'r Perfformiwr esbonio i'r claf ei fod yn dirprwyo rhan benodol o'i ofal i gydweithiwr ac y bydd yn trafod unrhyw ganfyddiadau clinigol gyda'r claf.  Rhaid i'r Perfformiwr beidio â dirprwyo unrhyw ran o swyddogaethau gwarchodedig profion golwg, gan gynnwys unrhyw ran a fyddai'n cael ei hystyried fel un sy'n asesu'r claf neu'n arfer barn broffesiynol, ac eithrio i rywun sydd wedi'i gofrestru i gyflawni'r swyddogaeth warchodedig ac sydd wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru.

### OPTOMETRYDDION SY'N FYFYRWYR

Er mwyn cynorthwyo i ddarparu WGOS (i'r graddau y mae'n gymwys i wneud hynny), rhaid i Optometrydd sy'n Fyfyriwr:

1. fod wedi'i restru ar Restr Offthalmig Cymru
2. gweithio dan oruchwyliaeth Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig y mae ei enw wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru ac sydd wedi'i gofrestru i gyflwyno'r episod WGOS sy'n cael ei berfformio a'i hawlio

Dylai'r goruchwyliwr asesu gallu'r myfyriwr fel y gall deilwra'r oruchwyliaeth i'r lefel cymhwysedd cyn-gofrestru.

Rhaid i'r goruchwyliwr fod ar y safle i allu hawlio am yr episod WGOS a chydymffurfio â'r holl ofynion uchod.

**NODER** ni fydd Optometrydd sy'n Fyfyriwr sydd wedi ei gofrestru fel Optometrydd cymwysedig ond nad yw eto wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru yn gallu cyflawni WGOS 1 a 2 hyd yn oed dan oruchwyliaeth. Dim ond gwaith nad yw'n waith WGOS, fel profion golwg preifat, gwaith preifat arall fel ffitiadau a gwiriadau lensys cyffwrdd y gall Optometrydd o'r fath ei wneud nes ei fod wedi'i dderbyn ar Restr Offthalmig Cymru fel Optometrydd.

# Cymhwyso ar gyfer WGOS 1 a 2 yn seiliedig ar breswyliad

*Mae meini prawf cymhwysedd yn amrywio yn dibynnu ar y lefel WGOS.*

*Mae'n ofynnol i glaf fod yn gymwys ar y dyddiad y darperir y gwasanaeth.*

Mae WGOS 1 a 2 ar gael i bob unigolyn, ni waeth ble maent yn byw, ar yr amod eu bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf cymhwysedd.

Nid yw WGOS 1 a 2 yn gyfyngedig i'r unigolion hynny sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru neu sydd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yng Nghymru.

# Gwasanaethau Symudol

*Er mwyn darparu WGOS fel gwasanaeth symudol, rhaid i'r Contractwr gael Cytundeb Gwasanaeth Symudol gyda'r Bwrdd Iechyd i gyd-fynd â'r lleoliad y mae'r gwasanaeth yn mynd i gael ei ddarparu ynddo.*

*Mae gan gleifion hawl i wasanaeth symudol os ydynt yn gleifion cymwys am WGOS y mae eu hamgylchiadau yn ymwneud â'u salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddynt dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.*

*Rhaid i'r rheswm dros ofyn am wasanaeth Symudol gael ei gofnodi ar y ffurflen hawlio yn ogystal ag ar y cofnod.*

*Nid oes gan gleifion mewnol mewn ysbytai hawl i wasanaeth symudol WGOS.*

Gall Contractwr ddarparu WGOS fel gwasanaeth symudol dim ond os:

- oes ganddo Gytundeb Gwasanaeth Symudol gyda'r Bwrdd Iechyd perthnasol
- yw'r claf neu ei ofalwr yn gofyn am wasanaeth symudol

a

- bod amgylchiadau'r claf mewn perthynas â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo gael gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig.

Wrth wneud cais am daliad Gwasanaeth Symudol, rhaid i'r claf nodi'r rheswm y mae amgylchiadau sy'n ymwneud â'i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol iddo dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn mangre gofrestredig. Cyfrifoldeb y claf neu ei ofalwr yw rhoi rheswm pam fod angen gwasanaeth Symudol ar y claf, nid y Contractwyr. Rhaid cofnodi hyn ar y ffurflen hawlio a'r cerdyn cofnodi. Mae termau fel 'caeth i'r tŷ', 'ansymudol', 'caeth i gadair olwyn' neu 'preswylydd cartref' yn annigonol.

Ni ellir darparu WGOS mewn Ysbytai, Carchardai nac unedau diogel. Mae darparu gofal llygaid yn y lleoliadau hyn y tu allan i gwmpas WGOS ac efallai y bydd gan fyrddau iechyd eu cytundebau gwasanaeth eu hunain.

Ar hyn o bryd ni ellir darparu WGOS mewn Ysgolion Arbennig. Mae'r llwybr hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei lansio maes o law.

**NODER** Os nad yw claf yn bodloni'r gofynion ar gyfer gwasanaethau symudol WGOS a'i fod fel arall yn gymwys ar gyfer WGOS ond bod ymarferydd (sydd ar y rhestr Symudol) yn dymuno cyflenwi'r gwasanaeth mewn lleoliad symudol gellir gwneud hyn, ond ni ellir hawlio ffi symudol.

# Ymgynghoriadau o Bell

*Gellir darparu WGOS fel gwasanaeth o bell, ond lle mae angen archwiliad / asesiad sy'n cynnwys defnyddio offer arbenigol, rhaid cwblhau'r rhain mewn ymgynghoriad wyneb yn wyneb lle mae'r claf a'r ymarferydd yn yr un ystafell.*

Mewn egwyddor gellir cyflwyno cydrannau o episodau WGOS o bell e.e. hanes a symptomau cyn-ymweliad, brysbennu cyn-ymweliad i asesu graddau brys.

Os yw'r episod WGOS neu symptomau'r claf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymarferydd gwblhau archwiliad / asesiad gan ddefnyddio offer arbenigol, rhaid cwblhau'r rhain mewn ymgynghoriad wyneb yn wyneb, lle mae'r claf a'r ymarferydd yn yr un ystafell.

Dylai'r ymarferydd ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a fyddai cynnig cydrannau o episod WGOS o bell er lles gorau'r claf.

Er y gellir cyflwyno cydrannau o WGOS o bell, ni ellir cwblhau WGOS 1 llawn o bell.

# Mynediad i WGOS

*Dylai fod gan bob claf fynediad cyfartal at wasanaethau gofal llygaid.*

*Ni ellir gwrthod gwasanaeth ar sail unrhyw nodwedd warchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 nac ar sail cyflwr meddygol a/neu offthalmig y claf.*

Dim ond os oes ganddo sail resymol dros wneud hynny y caiff y Contractwr wrthod darparu gwasanaethau perthnasol i'r claf cymwys.  Efallai na fydd seiliau rhesymol dros wrthod yn cynnwys nodweddion canlynol y claf o gwbl:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu Bartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil

- Crefydd neu Gred / bod yn Ddi-gred
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Rhyw (Rhywedd)
- Cyflwr meddygol
- Cyflwr offthalmig

Gall Contractwr wrthod gweld claf cymwys am resymau diogelwch neu pan fo perthynas rhwng y claf a'r practis yn chwalu, gan gynnwys digwyddiadau yn ymwneud â thrais, gan gynnwys pob math o aflonyddu a cham-drin yn erbyn staff.   Rhaid hysbysu'r Bwrdd Iechyd am achosion o'r fath.

# Dyletswydd Gonestrwydd

*Mae'n ofynnol i gontractwyr hysbysu'r Bwrdd Iechyd pan fydd y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i hysgogi ar gyfer digwyddiad yn ymwneud â chlaf y GIG*


Yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) [Cymru] 2020, mae gan ddarparwyr WGOS Ddyletswydd Gonestrwydd i ddilyn proses pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef neu'n gallu dioddef canlyniad andwyol sydd wedi neu a allai arwain at ganlyniad annisgwyl neu niwed anfwriadol sy'n gymedrol ac yn uwch (gweler y tabl isod) ac roedd darparu gofal iechyd yn ffactor, neu gallai fod wedi bod yn ffactor.

| Lefel y Niwed | Disgrifiad | Enghraifft |
|---|---|---|
| **Cymedrol** | Mae defnyddiwr gwasanaeth yn profi cynnydd cymedrol mewn triniaeth a niwed sylweddol, ond nid yw'n niwed parhaol. Mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at hyn, neu'n mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ato | *1.* Llithrodd y claf yn y practis gan fod y llawr yn wlyb gan arwain at dorri braich a oedd angen llawdriniaeth a chael ei dderbyn i'r ysbyty<br>*2.* Claf wedi cael diagnosis o rwygiad y retina mewn practis optometreg.  Atgyfeiriad heb ei gwblhau. Claf yn ymddangos bythefnos yn ddiweddarach gyda datodiad retinol (y macwla yn ei le) |
| **Difrifol** | Mae defnyddiwr gwasanaeth yn profi anabledd parhaol neu'n colli ei allu corfforol ac mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at hyn neu mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ato | *1.* Claf o dan ofal y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES).  Gwelwyd y claf ddiwethaf 6 mis yn ôl ar gyfer pigiadau gwrth-VEGF. Ni chafodd y claf ei alw'n ôl ar gyfer apwyntiad dilynol. Gostyngodd y craffter golwg (VA) o 6/12 i 6/60<br>*2.* Gofynnwyd i'r claf ddychwelyd ar gyfer ailadrodd y meysydd gweledol gan Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig. Prawf wedi'i ailadrodd ond heb ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | rannu gyda'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig felly ni wnaethpwyd atgyfeiriad. Claf yn ymddangos flwyddyn yn ddiweddarach gyda cholled maes sydd wedi gwaethygu'n arw |
| **Marwolaeth** | Mae defnyddiwr gwasanaeth yn marw, ac mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at y farwolaeth honno neu mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ati. | Rhoddir meddyginiaeth i'r claf er bod y nodiadau yn dweud bod ganddo alergedd, ac mae hyn yn arwain at ei farwolaeth. |

## PROSES

Y Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd:




## ADRODD

Gall contractwyr gofnodi digwyddiadau ar borth Datix (https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/cofnodi-digwyddiadau-gofal-sylfaenol-cymru/). Mae hyn yn caniatáu i PCGC gynhyrchu adroddiad er mwyn i'r Contractwr fodloni'r Cytundeb Gwasanaeth. Fel arall, rhaid i Gontractwr ddarparu adroddiad gonestrwydd blynyddol ar wahân i'r Bwrdd Iechyd y mae ganddo Gytundeb Gwasanaeth ag ef.

Diben casglu data o'r fath yw nodi'r hyn a ddysgwyd a rhoi gwelliant ar waith. Y nod yn y pen draw yw gwneud gofal iechyd yn fwy diogel i gleifion a staff y GIG trwy ddysgu ar y cyd a gwella systemau yn barhaus.

NODER Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y broses dyletswydd gonestrwydd neu'r polisi at y Bwrdd Iechyd, yma.

# Ansawdd mewn Optometreg

Mae Ansawdd mewn Optometreg yn ymwneud â gwella ansawdd gofal, diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau yn barhaus yn WGOS. Bydd systemau'n cael eu datblygu sy'n:

- Cipio data llywodraethu optometreg i sicrhau ymwybyddiaeth y Contractwr a dilysu ansawdd y Contractwr;
- Cynyddu ymwybyddiaeth timau Contractwyr optometreg o fethodoleg gwella ansawdd a'u gallu i wneud hynny;
- Casglu data gweithlu Contractwyr optometreg i gynnal gwybodaeth gywir am wasanaethau optometreg;
- Annog timau Contractwyr optometreg i ymgymryd â mwy o brosiectau gwella ansawdd; a
- Gwneud cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol a/neu anghlinigol gan Gontractwyr optometreg yn orfodol, fel y nodir yn y rheoliadau.

# Offer sydd ei angen i gyflawni WGOS

*Er mwyn cael Cytundeb Gwasanaeth WGOS, rhaid i'r Contractwr allu darparu mynediad i'r ymarferwr at safon ofynnol o offer.*

Er bod y Perfformiwr / Contractwr yn gallu defnyddio ei farn broffesiynol ei hun a'r gofyniad cyfreithiol lleiaf i benderfynu ar fformat a chynnwys y episod WGOS, mae angen i'r offer canlynol fod ar gael i allu cyflawni WGOS 1 a 2:

- Siart prawf pellter
- Prawf darllen agos
- Ffrâm brawf ac ategolion a/neu ben fforopter

- Retinosgop
- Prawf golwg binocwlaidd pell ac agos
- Ffocimedr
- Offthalmosgop uniongyrchol
- Lamp hollt
- Lens volk, neu gyfwerth er mwyn gallu cyflawni offthalmosgopi anuniongyrchol binocwlaidd
- Tonomedr gwastatu
- Offer profi golwg sy'n addas ar gyfer profi plant
- Prawf stereopsis
- Prawf golwg lliw
- Siart Amsler
- Sgriniwr maes gweledol a ddylai fod yn:
  - Awtomatig
  - Perthynol i'r trothwy
  - Gallu cynhyrchu llain maes y gellir ei rannu
- Offer tynnu blew'r amrannau
- Offeryniaeth tynnu rhywbeth na ddylai fod yno

**NODER** , pan fydd Perfformiwr yn dymuno cwblhau prawf penodol fel rhan o'i ymchwiliad clinigol, ond nad yw'r offer (am ba bynnag reswm) ar gael ar adeg yr episod WGOS, gall yr episod WGOS barhau ar yr amod bod trefniadau yn eu lle i'r archwiliad gyda'r offer angenrheidiol gael ei gwblhau ar ddiwrnod gwahanol, o fewn amserlen nad yw'n peryglu diogelwch a gofal y cleifion.  Ni ellir cyflwyno hawliad nes bod yr holl brofion angenrheidiol wedi'u cwblhau.

# Adroddiadau ac Atgyfeiriadau

*Dylid gwneud atgyfeiriadau o fewn amserlen nad yw'n peryglu diogelwch a gofal y cleifion.*

*Dylai ymarferwyr, lle bo'n briodol gwneud hynny, atgyfeirio cleifion at Gontractwyr sy'n darparu WGOS 3, 4 a 5.*

Yn unol â safonau ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, rhaid cwblhau pob atgyfeiriad ac adroddiad o fewn amserlen nad yw'n peryglu diogelwch a gofal y cleifion.

Pan fo ymarferydd yn sylwi ar arwydd neu symptom o anaf neu afiechyd na all ei reoli o fewn cwmpas ei ymarfer, gyda chaniatâd y claf, dylai atgyfeirio'r claf at ymarferydd priodol.  Yn y lle cyntaf ac yn unol â rheoliadau a Gofal Iechyd Darbodus, gyda'i ganiatâd, dylid atgyfeirio'r claf at Optometrydd Gofal Sylfaenol / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sydd â chymwysterau sy'n briodol i anghenion y claf.  Os na

ellir rheoli’r claf mewn gofal sylfaenol, dylai’r ymarferydd wneud trefniadau i’r claf gael ei weld mewn gofal eilaidd.

Rhaid i atgyfeiriadau ociwlar (a ddylai fod yn rhai electronig lle bo modd) gael eu hanfon yn syth ar hyd y llwybr gofal llygaid (o fewn WGOS os ydynt ar gael neu fel arall at y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty) ac nid drwy'r meddyg teulu. Mae hyn yn wir oni bai mewn amgylchiadau eithriadol lle disgwylir yn rhesymol i'r meddyg teulu reoli'r cyflwr ociwlar. Gellir dod o hyd i gyfeiriadau atgyfeirio lleol gan weithwyr proffesiynol Gofal Llygaid Cymru. Rhaid i gopi o’r llythyr atgyfeirio gael:

1. ei anfon at y meddyg teulu
2. ei gadw yng nghofnod y claf
3. ei gynnig i'r claf.

Gall ymarferwyr naill ai ddefnyddio templed adrodd/atgyfeirio y cytunwyd arno’n genedlaethol neu’n lleol e.e WECS 2, WECS 3, Ffurflen Atgyfeirio Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy’n Gysylltiedig ag Oedran neu lythyr atgyfeirio eu practis eu hunain, y mae’n rhaid iddo gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sydd wedi’i chynnwys yn ffurflen WECS 2 a WECS 3. Argymhellir cynnwys logo WGOS. Os defnyddir llythyr practis, rhaid i'r ymarferydd sicrhau bod rheolaeth y claf wedi'i hanodi'n glir ym mhennawd y llythyr (gweler y tabl isod).

Bydd atgyfeiriadau eraill (h.y. atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai ociwlar) yn cael eu cyfeirio lle bo'n briodol gan ddefnyddio'r gwaith papur a ddisgrifir uchod. Er enghraifft, at feddyg teulu, llawfeddygaeth fasgwlaidd, niwroleg, neu at ragnodi cymdeithasol.

**Tabl 1: Pennawd a awgrymir ei ddefnyddio ar lythyrau**

| Math o lythyr | Pennawd a Awgrymir |
|---|---|
| **Adroddiad / Atgyfeiriad trwy Feddyg Teulu** | FFURFLEN WYBODAETH MEDDYG TEULU: (NID ar gyfer atgyfeirio at Offthalmoleg) |
| **Atgyfeiriad** | Atgyfeiriad: Optometreg i Offthalmoleg |

**NODER** Yn unol â Deddf Optegwyr 1989, os yw claf yn gwrthod y cynnig o gopi o atgyfeiriad mae’n rhaid dal i roi datganiad ysgrifenedig o'r rheswm dros atgyfeirio i'r claf.

# Hawlio WGOS

*Dylid cadw cofnodion cywir o'r holl wasanaethau ac offer a gyflenwir o dan WGOS.*

*Dylai Contractwr hawlio am yr hyn sydd wedi'i gyflwyno/cyflenwi yn unig.*

*Dylid llenwi ffurflenni hawlio a’u cyflwyno i PCGC i’w talu.*

*Lle bo'n berthnasol, mae'n ofynnol i'r Contractwr wirio cymhwysedd claf ar gyfer WGOS.  Os na all claf ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd, rhaid nodi hyn ar y ffurflen (arfer da fyddai nodi hyn ar y cofnod hefyd).*

*Dylai Contractwr lenwi a chyflwyno Ffurflen Llofnodwr Awdurdodedig PCGC os yw'n dymuno enwebu ac awdurdodi cynrychiolydd i allu cydlofnodi datganiad y Contractwr ar y ffurflenni hawlio ar ei ran.*

*Yr unig amser y dylai Perfformiwr lofnodi ffurflen hawlio ar gyfer episod a gwblhawyd gan rywun arall yw pan gafodd yr episod honno ei chyflawni gan optometrydd sy'n fyfyriwr sydd o dan ei oruchwyliaeth.*

## FFURFLENNI HAWLIO

I hawlio am wasanaethau WGOS, dylid llenwi'r ffurflen hawlio briodol a'i chyflwyno i PCGC yn rheolaidd i'w thalu ac o fewn y terfynau amser a nodir yn y rheoliadau (gweler y tabl isod).

| Math o episod WGOS | Ffurflen | Terfynau amser cyflwyno o ddyddiad cyflenwi'r gwasanaeth neu ddyddiad casglu'r offer |
|---|---|---|
| **WGOS 1** | GOS 1W | 3 mis |
| **Gwasanaeth Symudol WGOS 1** | GOS 6W | 3 mis |
| **WGOS 1 os oes gan y claf dystysgrif HC3** | GOS 5W | 3 mis |
| **WGOS 2** | WECS 1 | 3 mis |
| **Taleb offer optegol a ariennir gan y GIG** | GOS 3W | 3 mis |
| **Trwsio / Amnewid sbectol a ariennir gan y GIG** | GOS 4W | 3 mis |

Bydd cyflwyno ffurflenni mewn pryd yn helpu PCGC i gyflymu taliad ar y dyddiad dyledus.  Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol am y dyddiadau cyflwyno a thalu ar-lein.

Ar ôl eu cyflwyno, a chyn gwneud unrhyw daliad, caiff y ffurflenni hawlio eu gwirio gan PCGC i weld bod:

1. Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd / Optegydd Cyflenwi wedi'i gofrestru â WGOS ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir
2. Y contractwr wedi'i gofrestru fel darparwr WGOS ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir
3. Y ffurflen hawlio wedi'i chwblhau'n llawn
4. Y claf yn gymwys am y gwasanaeth a ddarperir
5. Y cais wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen briodol fel y nodir yn y rheoliadau

Bydd methu â bodloni'r amodau uchod yn arwain at beidio â thalu a dychwelyd y ffurflen hawlio i'r Contractwr perthnasol.  Yna bydd gan y practis fis i ailgyflwyno'r hawliad.

**NODER** bydd y system gyflwyno ar gyfer ffurflenni WGOS yn newid wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

## CWBLHAU'R FFURFLENNI HAWLIO

Mae ffurflenni hawlio ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg.  Mater i'r claf yw penderfynu pa fersiwn y mae am ei chwblhau.  Lle mae dewis iaith y claf a’r clinigwr yn wahanol, gellir defnyddio dwy ffurflen, ond rhaid eu clymu at ei gilydd (ond nid eu gludo) i’w cyflwyno fel y gellir gweld y pedair ochr.

Mae ffurflenni hawlio fel arfer yn cael eu rhannu’n ddwy ran:

1. Manylion a datganiad y claf
2. Datganiad y Perfformiwr a/neu Gontractwr

### *Manylion a datganiad y claf*

Rhaid ticio pob datganiad sy'n berthnasol i'r claf ar y ffurflenni hawlio, a nodi manylion eraill fel sy'n ofynnol ar gyfer categori’r claf a lefel y gwasanaeth.

Lle bo'n berthnasol, rhaid i'r Contractwr ofyn i'r claf am dystiolaeth o'i gymhwysedd ar gyfer WGOS.  Os na welwyd tystiolaeth o gymhwysedd, dylid nodi hyn yn y man priodol ar y ffurflen hawlio.  Arfer da fyddai nodi’r rheswm dros gymhwysedd ar y cerdyn cofnod ac a oes tystiolaeth wedi’i gweld.

Wrth wneud cais am daliad Gwasanaeth Symudol, rhaid i’r claf nodi’r rheswm (h.y., mae amgylchiadau sy’n ymwneud â’i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu’n afresymol iddo dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn safle cofrestredig).  Cyfrifoldeb y claf neu ei ofalwr yw rhoi rheswm pam fod angen gwasanaeth Symudol ar y claf, nid y Contractwyr.  Rhaid cofnodi hyn ar y ffurflen hawlio a'r cerdyn cofnodi.

Pan fo adran ar y ffurflen hawlio sy’n gofyn am lofnod claf, oni bai bod GIG Cymru wedi rhoi gorchymyn i beidio, rhaid i’r Perfformiwr a’r Contractwr sicrhau bod y claf yn llofnodi ac yn dyddio datganiad y claf.  Os na all y claf lofnodi, rhaid i’r gofalwr neu gynrychiolydd awdurdodedig lofnodi yn y man priodol a phrintio ei enw a rhoi ei gyfeiriad.  Ni ddylai'r Perfformiwr / Contractwr nac aelod o staff practis lofnodi ar ran claf o dan unrhyw amgylchiadau oni bai mai'r aelod staff yw gofalwr neu gynrychiolydd awdurdodedig y claf.

### *Datganiad y Perfformiwr a/neu Gontractwr*

Rhaid i'r ymarferydd sy'n cynnal yr episod WGOS dicio'r holl ddatganiadau perthnasol ar y ffurflen hawlio i ddangos canlyniad yr episod WGOS.

Os nad yr ymarferydd a gynhaliodd yr episod WGOS yw'r Contractwr sy'n gwneud yr hawliad, dylai lofnodi datganiad yr ymarferydd ar y ffurflen hawlio, gan nodi'r dyddiad y digwyddodd yr apwyntiad a rhoi ei rif Rhestr Offthalmig.

Rhaid i ffurflenni sydd ag 'adran hawlio' gael eu llenwi gan y Contractwr neu ei lofnodwr awdurdodedig.  Os mai'r Perfformiwr sy'n cynnal yr episod WGOS yw'r Contractwr sy'n gwneud yr hawliad, dim ond unwaith y bydd angen iddo lofnodi, sef yr adran hawlio.

Mae hawliadau WGOS yn amodol ar ddilysu ar ôl talu yn unol â'r protocol y cytunwyd arno. Drwy lofnodi'r ffurflen hawlio, mae unigolyn yn llofnodi i gadarnhau ei fod yn deall ac yn derbyn os yw'n dal gwybodaeth yn ôl neu'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol y gallai fod yn agored i erlyniad a/neu achos sifil.

Wrth lofnodi'r ffurflen hawlio, mae'r ymarferydd sy'n cyflawni'r episod WGOS yn cadarnhau bod ganddo hawl i gyflawni'r episod WGOS ac yn cydsynio i ddatgelu gwybodaeth berthnasol at ddiben gwirio hyn; cynllunio, ymchwilio a gweinyddu'r gwasanaeth; ac mewn perthynas ag atal a chanfod twyll.

Wrth lofnodi'r ffurflen, mae'r Contractwr hefyd yn cydsynio i ddatgelu gwybodaeth berthnasol at ddiben gwirio'r hawliad; cynllunio a gweinyddu'r gwasanaeth; ac mewn perthynas ag atal a chanfod twyll; a chytuno i dalu cost y gwasanaeth yn ôl os canfyddir yn ddiweddarach nad oes ganddo hawl iddo.

Dylai llofnodwyr awdurdodedig practis 'taid' fel y'i gelwir fod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol. (Mae taid fel y'i gelwir yn ymarferydd cymwys a chofrestredig sy'n gweithredu fel Contractwr WGOS ar ran practis sy'n eiddo i berson lleyg neu endid, neu optegydd cyflenwi.)

Cynghorir contractwyr i lofnodi ffurflenni hawlio sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwyd yn unig. Y cyngor a roddir yw y dylid lofnodi'r ffurflen hawlio ar adeg darparu'r gwasanaeth i'r claf. Ni ddylid fyth lofnodi ffurflenni hawlio gwag. Os cânt eu cyflwyno'n dwyllodrus wedyn, bydd y llofnodwr yn cael ei ddal yn gyfrifol a gallai gael ei gyhuddo o dwyll. Ar wahân i lofnodi adran y Contractwr, yr unig adeg y dylai Perfformiwr lofnodi ffurflen hawlio ar gyfer episod a gwblhawyd gan rywun arall yw pan gyflawnwyd yr episod hwnnw gan Optometrydd sy'n Fyfyriwr sydd o dan ei oruchwyliaeth.

Nid yw defnyddio stamp rwber ar gyfer llofnod yn dderbyniol.

# Ffioedd Clinigol WGOS

*Adolygir ffioedd yn flynyddol*

**Tabl 2: Ffioedd WGOS (Ffioedd i'w cadarnhau gan Lywodraeth Cymru)**

| Gwasanaethau Clinigol | Ffi |
|---|---|
| Archwiliad Llygaid WGOS 1 | £ I'W GADARNHAU |
| WGOS 2: Band 1 | £ I'W GADARNHAU |
| WGOS 2: Band 2 | £ I'W GADARNHAU |
| WGOS 2: Band 3 | £ I'W GADARNHAU |
| Ffi Symudol WGOS (claf cyntaf ac ail glaf mewn cyfeiriad) | £ I'W GADARNHAU (fesul claf) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffi Symudol WGOS (trydydd claf a chlaf dilynol mewn cyfeiriad) | £ | I'W GADARNHAU | (fesul claf) |

# Dilysu ar ôl Talu

*Bydd hawliadau'n cael eu harchwilio gan y Bwrdd Iechyd, ac mae ganddynt hawl gyfreithiol i archwilio'r holl gofnodion sy'n ymwneud â chleifion WGOS.*

*Bydd cadw cofnodion da yn galluogi Contractwr / Perfformiwr i gefnogi'r hawliad WGOS.*

*Dylai cofnodion gynnwys manylion pawb sy'n ymwneud â darparu gofal i'r claf, gan gynnwys enw a llofnod, neu ddull arall o adnabod yr awdur.*

Mae holl weithgareddau a hawliadau ffioedd WGOS yn amodol ar ddilysiad ôl-daliad (gweler protocolau Dilysu ar ôl Talu) gan y Bwrdd Iechyd neu PCGC ar eu rhan. Mae gan y Bwrdd Iechyd, neu ei gynrychiolydd, hawl gyfreithiol i archwilio cofnodion yn ymwneud â chleifion WGOS (gan gynnwys cofnodion WGOS a chofnodion preifat yn gymysg yn ymwneud â hawliad WGOS). Mae'n ofynnol i gontractwyr o dan y rheoliadau sicrhau bod y cofnodion ar gael o fewn cyfnod a bennir iddynt.

Mae cadw cofnodion cywir a manwl a chadw at ofynion amrywiol WGOS yn hanfodol er mwyn gallu cefnogi unrhyw hawliadau WGOS ac osgoi anawsterau o ran Dilysu ar ôl Talu.

## CADW COFNODION

Rhaid cadw cofnodion cleifion llawn a chywir. Dylid eu gwneud ar adeg yr archwiliad a darparu hanes gofal y claf. Dylai'r cofnodion gynnwys:

- y rheswm a'r math o episod WGOS a gyflawnwyd
- tystiolaeth o'r ymchwiliad clinigol a gynhaliwyd
- nodyn o'r drafodaeth a gafwyd gyda'r claf, gan gynnwys y cyngor a roddwyd
- unrhyw atgyfeiriadau/adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r episod WGOS

Bydd hawliadau'n cael eu harchwilio gan y Bwrdd Iechyd neu gan PCGC ar ran y Bwrdd Iechyd ac mae ganddynt hawl gyfreithiol i archwilio'r holl gofnodion sy'n ymwneud ag WGOS.

# Archwiliad Llygaid WGOS 1

*Rhaid i bob Contractwr y dyfarnwyd Cytundeb Gwasanaeth WGOS iddo allu darparu'r lefel hon o wasanaeth.*

Mae Archwiliad Llygaid WGOS 1 yn:

- Brawf Golwg (fel y'i diffinnir yn Neddf Optegwyr, 1989) ynghyd ag
- Elfennau iechyd cyfannol.

Mae’r elfen iechyd cyfannol yn seiliedig ar egwyddorion Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) ac mae’n cynnwys:

- Cwestiwn uniongyrchol
- Negeseuon Iechyd ac Ymddygiad
- Rhagnodi Cymdeithasol

Rhaid i'r Optometrydd sy'n cynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 ystyried anghenion, risg ac ymddygiad y claf. Rhaid i’r Optometrydd fod yn ystyriol o’r claf fel unigolyn a manteisio ar bob cyfle i’w gefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i’w iechyd a’i les corfforol a meddyliol.

Ar ddiwedd Archwiliad Llygaid WGOS 1, bydd yr Optometrydd yn rhoi crynodeb/canlyniad yr archwiliad i’r claf. Cyfeirir at hyn fel 'Cynllun Rheoli’r Claf'.

# Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)

Mae MECC yn ddull o newid ymddygiad sy'n defnyddio'r miliynau o ryngweithiadau o ddydd i ddydd y mae sefydliadau ac unigolion yn eu cael gyda phobl eraill i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.

Mae MECC yn achub ar y cyfle i gyflwyno gwybodaeth gyson a chryno am ffordd o fyw iach ac yn galluogi unigolion i gymryd rhan mewn sgyrsiau am eu hiechyd ar raddfa fawr ar draws sefydliadau a phoblogaethau.

Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gontractwyr Optometreg gyflwyno syniadau am ffordd o fyw a newid ymddygiad yn briodol ac ysgogi unigolion i wella eu hiechyd a’u lles eu hunain, lleihau marwolaethau cynamserol y gellir eu hosgoi sy’n gysylltiedig â dewisiadau ffordd o fyw gwael, lleihau anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i reoli cyflyrau hirdymor yn well.

Gall contractwyr helpu pobl i wneud dewisiadau iachach, trwy gael sgyrsiau byr y cyfeirir atynt fel Cyngor Byr sydd â thair egwyddor syml:

1. **Gofyn** i unigolyn am ei iechyd a'i les pan ddaw'r cyfle (MECC a Sgrinio dan Gyfarwyddyd)
2. **Rhoi Cyngor** iddo ystyried y manteision o wneud newid, os oes ganddo ddiddordeb (Negeseuon Iechyd ac Ymddygiad)
3. **Gweithredu** trwy gynnig anogaeth a gwybodaeth am ffynonellau cymorth (Presgripsiynu Cymdeithasol a chefnogaeth)

## CWESTIYNAU UNIONGYRCHOL

Mae cwestiynau uniongyrchol yn ymholiadau penodol y mae'n rhaid eu gwneud (lle bo'n berthnasol i garfan a ddiffinnir gan gleifion) ym mhob Archwiliad Llygaid WGOS 1.

Bydd y set o gwestiynau uniongyrchol yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u cytuno gan Fwrdd WGOS. Ar unrhyw adeg, efallai y bydd **hyd at** dri chwestiwn sgrinio uniongyrchol y mae'n rhaid eu cyflwyno i garfanau diffiniedig o gleifion.

Cwestiynau uniongyrchol cyfredol:

1. Gofyn i'r claf a yw'n ysmygu.
    - Carfan: Pob claf 16 oed a throsodd
    - Gweithredu: Os ydy, yna bydd y claf yn cael cynnig gwasanaethau Helpa Fi i Stopio.
2. I'w gadarnhau mewn fersiynau o'r llawlyfr yn y dyfodol
3. I'w gadarnhau mewn fersiynau o'r llawlyfr yn y dyfodol

**NODER** Mae gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn cynnig cymorth o 12 oed ymlaen, felly dylai unrhyw blentyn cymwys a/neu warcheidwaid plentyn a nodir ar adegau eraill o Archwiliad Llygaid WGOS 1 gael eu cyfeirio at y cymorth.

## NEGESEUON IECHYD AC YMDDYGIAD

Fel proffesiwn gofal iechyd, mae gan Optometreg ran i'w chwarae i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r effaith y mae dewis o ran ffordd o fyw ac ymddygiad yn ei chael ar eu hiechyd ociwlar a chyffredinol.

Dymuna Byrddau Iechyd yng Nghymru greu amgylchedd lle gall Contractwyr gyflwyno syniadau am newid ffordd o fyw ac ymddygiad yn briodol ac ysgogi unigolion i wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gontractwyr hyrwyddo hyd at uchafswm o dair thema gyda neges allweddol benodol, sef negeseuon Cenedlaethol a/neu Glystyrau. Lle bo'n berthnasol, bydd y negeseuon yn gysylltiedig â 'chwestiwn uniongyrchol' ac yn cael eu cefnogi ganddo. Bydd y practis a'r Perfformiwr yn trosglwyddo negeseuon Iechyd ac Ymddygiad i sicrhau bod pob claf yn cael ei gefnogi i dderbyn y negeseuon.

Bydd cyfres o adnoddau negeseuon cymeradwy GIG Cymru ar gael i'r Contractwr eu harchebu neu eu lawrlwytho drwy wefan Gofal Llygaid Cymru.

### RHAGNODI CYMDEITHASOL

Yng Nghymru, diffinnir presgripsiynu cymdeithasol fel 'cysylltu dinasyddion â chymorth yn y gymuned er mwyn rheoli eu hiechyd a'u llesiant yn well'. Mae'r model yn un holistig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolynac mae'n troi oddi wrth ddull meddygol, at un lle mae'r ffynonellau atgyfeirio yn rhai traws-sectoraidd a heb eu cyfyngu i ofal iechyd/gofal sylfaenol.

Disgwylir i'r Optometrydd/Ymarferydd Meddygol Offthalmig gael mynediad at fanylion gwasanaethau lleol a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o atgyfeirio at y gwasanaethau hynny.

Disgwylir i Gontractwr wneud pob Perfformiwr yn ymwybodol o wasanaethau lleol a ffyrdd o ymgysylltu/atgyfeirio. Gweler Gofal Llygaid Cymru am y gwasanaethau a'r prosesau atgyfeirio sydd ar gael yn eich ardal.

# Cynllun Rheoli'r Claf

Y cynllun rheoli'r claf yw canlyniad/crynodeb o Archwiliad Llygaid WGOS 1 ac mae'n cynnwys:

1. Yr allbynnau sydd eu hangen fel rhan o Brawf Golwg (fel y'u diffinnir yn Neddf Optegwyr, 1989) h.y. yn syth ar ôl y prawf rhoi datganiad ysgrifenedig i nodi:
    a. bod prawf golwg wedi'i gwblhau
    b. a yw'r claf i'w atgyfeirio at ymarferydd meddygol a, lle bo'n gymwys, y rheswm dros atgyfeirio
    c. presgripsiwn sbectol y claf ac a oes angen cywirad.

ac:

2. A yw'r claf i gael ei atgyfeirio at Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol arall a, lle bo'n berthnasol, y rheswm dros ei atgyfeirio ac at bwy y mae'n cael ei atgyfeirio
3. Adnodd hunanreoli e.e. taflenni, dolenni i adnoddau ar-lein ac ati.
4. Unrhyw negeseuon iechyd neu ymddygiad wedi'u targedu (a ganfyddir trwy MECC neu sgrinio cyfeiriedig)
5. Unrhyw atgyfeiriad ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol e.e. at wasanaethau a gweithgareddau anghlinigol, a ddarperir yn nodweddiadol gan y sectorau gwirfoddol a chymunedol
6. Argymhelliad ynghylch y cyfnod byrraf tan yr Archwiliad Llygaid WGOS 1 arferol nesaf. Yn y dyfodol, bydd uchafswm y cyfnod a argymhellir yn cael ei ychwanegu at ganllawiau'r gwasanaeth.

Rhaid cyfathrebu cynllun rheoli'r claf i'r claf yn dilyn Archwiliad Llygaid WGOS 1, a gynigir fel datganiad ysgrifenedig.

**NODER** Nid yw'r defnydd presennol o ffurflenni GOS(W) ac EHEW yn caniatáu i'r gwasanaeth gynnwys y cynllun rheoli'r claf. Ond rhagwelir y bydd mecanwaith cyflwyno yn y dyfodol yn cynnwys y cynllun rheoli'r claf yn llawn.

## YMYRRAETH GYFANNOL BELLACH

Efallai y bydd adegau pan ofynnir i Gontractwr gymryd rhan mewn ymgyrch ymwybyddiaeth iechyd clwstwr / bwrdd iechyd / rhanbarthol / cenedlaethol / sgrinio / gweithgaredd ymyrryd (e.e. sgrinio pwysedd gwaed). Byddai gweithgareddau o'r fath yn ychwanegol at Archwiliad Llygaid craidd WGOS 1.

Byddai'r ymyriad yn cael ei gytuno ar lefel Clwstwr, Bwrdd Iechyd, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol a byddai'n cael cod i'w ddefnyddio ar y cyflwyniad fel bod y Contractwr yn cael cydnabyddiaeth ariannol briodol.

**NODER** Nid oes unrhyw Ymyriadau Cyfannol Pellach y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd. Mae'r adran hon yn disgrifio swyddogaeth y gellir ei defnyddio'n lleol neu'n genedlaethol yn y dyfodol.

# Gofynion ar gyfer cyflwyno Archwiliad Llygaid WGOS 1

## GOFYNION Y CONTRACTWR

Yn ogystal â hysbysebu'r gwasanaeth WGOS y mae'r Contractwr yn ei gynnig, rhaid i'r Contractwr:

- Sicrhau bod Themâu Negeseuon Allweddol (negeseuon iechyd ac ymddygiad) yn cael eu harddangos yn amlwg yn y practis (neu'n cael eu darparu fel arall mewn lleoliadau symudol) gyda Safonau Hygyrchedd Gwybodaeth 2013. Gallai contractwyr ystyried bod hyn yn cynnwys
  - Gofod digidol y Contractwr (e.e. gwefan, cyfryngau cymdeithasol)
  - Y tafluniad allanol (ffenestri'r practis),
  - Y gofodau mewnol (mannau aros, ystafelloedd profi), a'r
  - Cyfathrebu â chleifion e.e. presgripsiynau a llythyrau galw'n ôl a hyrwyddo.
- Sicrhau bod elfennau iechyd cyfannol yn cael eu rhoi i'r claf ar yr un pryd â'r presgripsiwn optegol ar ddiwedd Archwiliad Llygaid WGOS 1.

Bydd yn ofynnol i gontractwyr gwblhau a chyflwyno gwiriad sicrwydd ansawdd hunan-ardystiedig o bryd i'w gilydd i gadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod yn ogystal â'r holl ofynion eraill a nodir yn eu Cytundeb Gwasanaeth.

**NODER** Mae'r gofynion hyn ar gyfer pob Contractwr (gan gynnwys practisiau symudol). Cydnabyddir bod pob practis yn wahanol. Disgwylir felly i gontractwyr wneud diwygiadau rhesymol i fodloni'r ymrwymiadau uchod hyd eithaf eu gallu.

### GOFYNIAD AR OPTOMETRYDD / YMARFERYDD MEDDYGOL OFFTHALMIG SY'N DARPARU ARCHWILIAD LLYGAID WGOS 1

Rhaid i Optometrydd/Ymarferydd Meddygol Offthalmig:

4. Dynnu ar yr holl hyfforddiant gorfodol i sicrhau ei fod yn deall ac yn gallu cydymffurfio â gofynion Archwiliad Llygaid WGOS 1
5. Cefnogi cleifion sy'n cychwyn sgwrs am negeseuon iechyd ac ymddygiad yn weithredol
6. Cwblhau pob cwestiwn sgrinio dan gyfarwyddyd
7. Mynd ati i ymgysylltu ag egwyddorion ‘Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif’ drwy:
    - Ddechrau sgwrs am negeseuon iechyd ac ymddygiad sy’n berthnasol i’r claf, yn seiliedig ar oedran a ffactorau risg (ociwlar ac yn ymwneud ag iechyd)
    - Pan fônt ar gael, cyfeirio/atgyfeirio cleifion at weithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned yn unol â Phresgripsiynu Cymdeithasol

# Cymhwysedd

*Mae'n ofynnol i'r Contractwr wirio cymhwysedd claf ar gyfer Archwiliad Llygaid WGOS 1.*

*Mae'n ofynnol i glaf fod yn gymwys ar ddyddiad yr Archwiliad Llygaid WGOS 1.*

*Os na all claf ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd, dylid nodi hyn ar y ffurflen hawlio fel “Tystiolaeth Heb ei Gweld”.*

Mae claf yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 os yw’n bodloni un o’r meini prawf a restrir yn y tabl canlynol.

| Cymhwysedd (Mae’r claf yn/wedi…) | Sylwadau |
|---|---|
| **O dan 16** | Pob claf dan 16 oed ni waeth ble maent yn derbyn eu haddysg |
| **16, 17 neu 18 oed ac mewn addysg llawn amser** | Mae cleifion 16, 17 neu 18 oed sydd mewn addysg llawn amser mewn sefydliad addysgol cydnabyddedig yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar ôl iddynt ymuno â chwrs academaidd.<br>Mae myfyrwyr o dan 19 oed ac sydd rhwng blynyddoedd academaidd neu’n newid ysgol yn parhau i fod yn gymwys yn ystod y gwyliau, yn ogystal â myfyrwyr o dan 19 oed sy’n mynd i goleg neu brifysgol ac sydd â lle mewn coleg neu brifysgol i’w gymryd yn syth ar ôl y gwyliau hir, h.y. dim blwyddyn i ffwrdd.<br>Mae cleifion 16, 17 neu 18 oed sy'n cael eu haddysgu gartref o ddewis yn gymwys ar gyfer Archwiliad Llygaid WGOS 1 ac, os oes angen, talebau optegol i gael cymorth tuag at gost sbectol.<br>Mae gan gleifion 16, 17 neu 18 oed sydd ar Hyfforddeiaeth Llywodraeth Cymru gyda phresenoldeb o 21 awr neu fwy yr wythnos hawl i |

| Cymhwysedd (Mae’r claf yn/wedi…) | Sylwadau |
|---|---|
| | Archwiliad Llygaid WGOS 1 ac, os oes angen, talebau optegol tuag at gost sbectol.<br>Wrth gwblhau gwaith papur WGOS, dylai optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig dicio’r blwch ar gyfer claf sy’n fyfyriwr llawn amser 16, 17 neu 18 oed ac yn mynd i Ysgol/Coleg/Prifysgol a nodi “addysgir gartref” neu “Hyfforddeiaeth Llywodraeth Cymru” fel y bo’n briodol. |
| **Dan 18 oed sy’n gadael gofal neu sydd yng ngofal Awdurdod Lleol** | |
| **60 neu drosodd** | Pob claf sy’n 60 oed neu’n hŷn |
| **Wedi cofrestru fel un sydd â nam ar y golwg / nam difrifol ar y golwg** | Pob claf sydd wedi'i gofrestru â nam ar y golwg / nam difrifol ar y golwg |
| **Diabetig** | Mae gan gleifion sy'n cael diagnosis o ddiabetes hawl i Archwiliad Llygaid WGOS 1<br>Dylai cleifion 12 oed neu hŷn ac sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes fod yn rhan o wasanaeth sgrinio llygaid diabetig. Oni bai eu bod ar hyn o bryd o dan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty ar gyfer eu gofal llygaid diabetig, mae'r sgrinio'n cael ei gwblhau gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW). Os nad yw'r claf yn cael ei sgrinio, dylech ddwyn hyn i sylw meddyg teulu'r claf, fel y gellir cynnwys y claf hwnnw. |
| **Glawcoma** | Cleifion sydd â diagnosis o glawcoma pa un a ydynt dan ofal Offthalmolegydd ai peidio. |
| **Hanes teuluol o glawcoma** | Claf sy’n 40 oed neu’n hŷn sy’n rhiant, plentyn neu frawd neu chwaer i unigolyn sydd â glawcoma neu a oedd â glawcoma |
| **Unigolyn yr ystyrir ei fod mewn perygl o ddioddef glawcoma** | Mae claf y mae offthalmolegydd / ymarferydd cymwys i drin glawcoma yn ystyried a allai fod yn dueddol o ddatblygu glawcoma hefyd yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1. Ond, nid yw'r cymhwysedd hwn yn ymestyn i aelodau eu teulu. |
| **Mewn perygl o ddatblygu clefyd llygaid yn seiliedig ar ethnigrwydd** | Mae cleifion sy’n 40 oed neu’n hŷn ac sy’n hunan-ardystio eu bod yn Asiaidd neu’n Ddu yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar y sail eu bod mewn mwy o berygl o lawer o glawcoma a diabetes yn iau a chyda chlefyd mwy difrifol o gymharu ag ethnigrwydd arall.<br>Mae cleifion sydd o dan 40 oed ac sy'n hunan-ardystio fel Asiaidd neu Ddu gyda ffactorau risg ychwanegol yn gysylltiedig â glawcoma neu ddiabetes (e.e. Hanes Teuluol o glawcoma) hefyd yn gymwys. |
| **Gydag un llygad yn unig** | Cleifion sydd â dim ond un llygad ac a fyddai'n gymwys i gofrestru fel rhai sydd â Nam ar y Golwg pe baent yn colli eu golwg yn eu llygad 'da' |
| **Nam ar y Clyw** | Cleifion sy'n gallu hunan-ardystio eu bod, hyd yn oed gyda chymhorthion, yn ystyried eu hunain fel rhai sydd â nam ar eu clyw a'u bod yn dibynnu ar eu golwg i gynorthwyo gyda chyfathrebu e.e. darllen gwefusau, arwyddo neu gyfathrebu ysgrifenedig |

| Cymhwysedd (Mae’r claf yn/wedi…) | Sylwadau |
|---|---|
| **Retinitis pigmentosa** | Cleifion sydd wedi cael diagnosis o retinitis pigmentosa gan Offthalmolegydd |
| **Presgripsiwn Cymhleth** | Claf sy'n gwisgo lensys cymhleth ar hyn o bryd.  Os canfyddir yn ystod Archwiliad Llygaid WGOS 1 nad yw ei bresgripsiwn bellach yn cael ei ystyried yn ‘gymhleth’, bydd yn dal yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 y tro hwn, ond ni fyddai ganddo hawl awtomatig i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar ôl hynny oni bai ei fod yn gymwys am reswm arall.<br>Os canfyddir bod angen lens gymhleth ar y claf sy’n cael Prawf Golwg preifat, gellir hawlio Archwiliad Llygaid WGOS 1, ar yr amod bod yr holl elfennau ychwanegol (na fyddai fel arfer yn cael eu cynnwys mewn prawf golwg) i gydymffurfio â’r rheoliadau yn cael eu cwblhau. |
| **Carcharor ar absenoldeb awdurdodedig o'r carchar** | Mae “carcharor” yn y cyd-destun hwn yn golygu unigolyn sy'n cael ei gadw mewn carchar, gan gynnwys sefydliad troseddwyr ifanc, ond sydd, ar adeg derbyn unrhyw wasanaeth offthalmig sylfaenol, ar absenoldeb awdurdodedig o'r carchar hwnnw. Gellir caniatáu i garcharor adael y carchar am gyfnodau byr tua diwedd ei ddedfryd ac mae ymestyn cymhwysedd carcharorion sydd ar absenoldeb awdurdodedig yn fodd i gychwyn integreiddio â gweddill cymdeithas agored, gan ymestyn a democrateiddio darpariaethau y mae gan aelodau ehangach o’r cyhoedd yr hawl i’w cael. |
| **Oedolyn sy’n derbyn un o’r canlynol:**<br>• Cymhorthdal Incwm<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy’n gysylltiedig ag incwm<br>• Lwfans Ceisio Gwaith sy’n seiliedig ar incwm<br>• Gwarant Credyd Pensiwn<br>• Credyd Cynhwysol ac yn bodloni’r meini prawf<br>• Tystysgrif HC2 (cymorth llawn) neu HC3 (cymorth rhannol)<br>• Tystysgrif eithrio Credyd Treth ddilys y GIG | Mae'r ddolen ganlynol yn ddefnyddiol i benderfynu a oes gan glaf hawl i Archwiliad Llygaid WGOS 1 a/neu gymorth tuag at gost dyfais optegol.<br>https://www.llyw.cymru/cymorth-gyda-chostau-gofal-llygaid-y-gig |

Mae'n ofynnol i'r Perfformiwr a'r Contractwr gymryd camau rhesymol i wirio cymhwysedd claf i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar y dyddiad y cynhelir yr archwiliad.

Nid yw Archwiliad Llygaid WGOS 1 a Phrofion Golwg Preifat yr un peth. Rhaid i'r Perfformiwr a'r Contractwr felly wneud pob ymdrech i sefydlu a yw'r claf yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 cyn i'r archwiliad ddechrau.

# Amlder

*Dim ond pan fo angen clinigol y dylid cynnal Archwiliadau Llygaid WGOS 1.*

*Dylai optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig arfer eu barn glinigol eu hunain wrth alw cleifion yn ôl.*

*Os bydd Optometryddion neu Ymarferwyr Meddygol Offthalmig yn penderfynu gweld claf ar adeg sy'n fyrrach na'r hyn a argymhellir, yna rhaid defnyddio'r cod priodol ar y ffurflen hawlio a nodi'r rheswm ar y cofnod.*

Ni ddylai'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig gynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 oni bai ei fod yn ystyried ei fod yn glinigol angenrheidiol. Rhaid i'r rheswm dros y prawf gael ei gofnodi'n glir yng nghofnod y claf. Ni ddylid cynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 dim ond er mwyn rhoi taleb yn lle sbectol / lensys cyffwrdd sydd wedi torri neu sydd ar goll.

Mae optometryddion / Ymarferwyr Meddygol Offthalmig yn rhydd i arfer eu barn glinigol i bennu pa mor aml y mae angen Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar glaf. Fel canllaw cryno, gellir ystyried y dyddiadau galw'n ôl byrraf nad oes angen eu codio'n ychwanegol fel:

### Isafswm Cyfnodau Rhwng Archwiliadau Llygaid WGOS 1

| Oedran y Claf ar Amser Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Gyflwr Clinigol | Cyfnod Byrraf rhwng Archwiliadau Llygaid WGOS 1 |
|---|---|
| Dan 16 oed | 1 flwyddyn |
| 16 oed a throsodd ac o dan 70 oed | 2 flynedd |
| 70 oed a hŷn | 1 flwyddyn |
| 40 mlwydd oed a throsodd gyda hanes teuluol o glawcoma neu â gorbwysedd ociwlar ac nid mewn cynllun monitro | 1 flwyddyn |
| Cleifion diabetig | 1 flwyddyn |
| Mewn perygl o ddatblygu clefyd llygaid yn seiliedig ar ethnigrwydd<br>Gydag un llygad yn unig<br>Nam ar y Clyw<br>Retinitis pigmentosa | 1 flwyddyn |

Pan fydd Archwiliad Llygaid WGOS 1 yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod byrrach nag a restrir yn **Error! Reference source not found.**, rhaid rhoi cod galw'n ôl yn gynnar ar y ffurflen hawlio. Gan fod gan y

Byrddau Iechyd y disgresiwn i ofyn i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig gyfiawnhau eu penderfyniadau, rhaid i'r cofnod gefnogi'r rheswm dros y prawf cynnar.

### Codau Prawf Cynnar Archwiliad Iechyd Archwiliad Llygaid WGOS 1

| Codau Prawf Cynnar | Rheswm |
|---|---|
| **1** | Nodwyd bod y claf yn Archwiliad Llygaid / Prawf Golwg Preifat diwethaf WGOS 1 yn un a oedd mewn perygl o newidiadau i'r presgripsiwn optegol |
| **2** | Mae gan y claf batholeg ociwlar sy'n debygol o waethygu, e.e. cataractau ac mae'r golwg ar y ffin o ran y gallu i yrru; anomaleddau o ran golwg binocwlaidd, ac ati. |
| **3** | Claf sydd wedi dangos symptomau gweledol nad yw, yn dilyn brysbennu gan y practis, yn gymwys ar gyfer WGOS 2: Band 1 ond sydd angen archwiliad pellach |
| **4** | Mae protocolau WGOS wedi nodi bod angen gweld y claf yn amlach oherwydd ffactorau risg ociwlar / iechyd / ymddygiad. |
| **5** | Mae claf wedi cael ei atgyfeirio gan ymarferydd meddygol ar gyfer archwiliad llygaid WGOS 1 |
| **6** | Mae angen ail Archwiliad Llygaid WGOS 1 gan nad yw'r claf yn gallu goddef ei sbectol newydd |
| **7** | Amgylchiadau eraill sy'n gofyn am ymchwiliad clinigol nad ydynt wedi'u hamlinellu uchod |

**NODER** Er bod rhyddid llwyr i arfer barn glinigol mewn achosion unigol, nid yw'n briodol gosod ysbaid galw'n ôl cyffredinol i bob claf o fewn categori e.e. mae pob claf dros 70 oed neu gleifion â diabetes yn cael eu rhoi yn awtomatig ar ysbeidiau galw'n ôl o 12 mis. Gallai Archwiliadau Llygaid WGOS 1 sy'n digwydd yn rhy aml achosi i'r Bwrdd Iechyd gwestiynu a ddylai Perfformiwr / Contractwr aros ar Restr Offthalmig Cymru.

## Archwiliad

*Dim ond pan fo angen y dylid cynnal archwiliadau llygaid.*

*Dylai optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig arfer eu barn glinigol eu hunain wrth alw cleifion yn ôl.*

*Er mwyn gallu hawlio am Archwiliad Llygaid WGOS 1, rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig allu dangos eu bod wedi:*

1. *Cwblhau prawf golwg (fel y'i diffinnir yn Neddf Optegwyr, 1989)*
2. *Cwblhau Cynllun Rheoli Cleifion*

Wrth gynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1, mae'n rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig, fel rhan o'r archwiliad, sefydlu anghenion a risgiau'r claf, yn seiliedig ar oedran, iechyd cyffredinol, ffordd o fyw / ymddygiad, hanes teuluol ac ati.

Ar ddiwedd Archwiliad Llygaid WGOS 1 rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig ddarparu Cynllun Rheoli'r Claf, fel y manylwyd arno yn yr adran flaenorol.

**Tabl 3: Enghreifftiau o gyngor a allai fod yn rhan o Gynllun Rheoli'r Claf**

| Oedran y Claf | Risg a nodwyd yn ystod Archwiliad Llygaid WGOS 1 | Cyngor / camau gweithredu posibl y gallai'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig eu cymryd |
|---|---|---|
| **0-18** | Dim | Datblygu arferion da gyda maeth, gweithgaredd, amser sgrin, diogeliad uwchfioled |
| **14 - 65** | Ysmygwr | Cyfeirio at "Helpa Fi i Stopio", Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu yng Nghymru |
| **50+** | Diabetes Math 2 | Sicrhau bod y claf yn deall pwysigrwydd mynychu ei glinig diabetig a'r sgrinio retinopathi diabetig pan gaiff ei alw |

1. Os bydd yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig yn sylwi ar arwydd neu symptom o anaf neu afiechyd na allant ei reoli o fewn cwmpas eu hymarfer, gyda chaniatâd y claf, dylai atgyfeirio'r claf at ymarferydd priodol. Yn y lle cyntaf ac yn unol â rheoliadau a Gofal Iechyd Darbodus, dylid atgyfeirio'r claf at Optometrydd Gofal Sylfaenol / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sydd â chymwysterau sy'n briodol i anghenion y claf. Pan na ellir rheoli'r claf mewn gofal sylfaenol, dylai'r ymarferydd drefnu i'r claf gael ei weld mewn gofal eilaidd.
2. Rhoi gwybod i'r claf pryd y dylai'r episod nesaf o WGOS ddigwydd.
3. Rhoi naill ai bresgripsiwn ysgrifenedig wedi'i lofnodi ar gyfer teclyn optegol neu ddatganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi nad oes angen dyfais optegol ar y claf.
4. Os oes gan y claf hawl i gael teclyn optegol a ariennir gan GIG Cymru, rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig roi taleb WGOS i'r claf. Dylai'r daleb gynnwys presgripsiwn y sbectol sydd wedi'i ysgrifennu yn y ffurf pŵer sfferig uchaf, fel bod y claf yn gallu cael cymorth o'r gwerth uchaf tuag at ei sbectol/lensys cyffwrdd.

**NODER** Mae'n arfer da i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig nodi unrhyw wybodaeth / cyngor a roddwyd i'r claf ar y cofnod clinigol.

# Hawlio

*Dylai Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig lofnodi ffurflenni ar gyfer gwasanaethau y mae wedi'u darparu yn unig.*

*Dylid nodi dyddiad y prawf golwg / archwiliad llygaid diwethaf ar y ffurflen GOS1W, boed hynny gyda'r GIG neu'n breifat.*

*Ni ddylid cyflwyno hawliad nes bod Archwiliad Llygaid WGOS 1 wedi'i gwblhau, y presgripsiwn neu'r datganiad wedi'i roi i'r claf, neu fod atgyfeiriad wedi'i wneud.*

Bydd y ffurflen hawlio a ddefnyddir ar gyfer Archwiliad Llygaid WGOS 1 yn dibynnu ar:

1. A yw'r claf yn cael cymorth llawn neu rannol tuag at gost ei Archwiliad Llygaid WGOS 1
2. Y lleoliad y cafodd Archwiliad Llygaid WGOS 1 ei gynnal

### Ffurflenni i'w defnyddio i hawlio Archwiliad Llygaid WGOS 1

| | Cymhwysedd am Archwiliad Llygaid WGOS 1 | |
|---|---|---|
| Lleoliad lle cwblhawyd Archwiliad Llygaid WGOS 1 | Cymorth llawn (pob maen prawf cymhwyster ac eithrio pan fydd gan y claf dystysgrif HC3) | Cymorth Rhannol (Mae gan y claf Dystysgrif HC3) |
| Mewn practis | GOS 1W | GOS 5W |
| Unrhyw leoliad yng Nghymru, y tu allan i safle practis WGOS | GOS 6W | GOS 5W |

## GWASANAETHAU SYMUDOL

Bydd cartrefi preswyl yn cael eu hystyried fel un cyfeiriad ac fel uned llety sengl at ddiben cyfrifo'r ffioedd Gwasanaeth Symudol sy'n daladwy.   Yn unol â hynny, mae ffi ymweld â chartref is yn daladwy mewn perthynas â WGOS a ddarperir i drydydd preswylydd a phreswylwyr dilynol yn ystod un ymweliad. Ond lle mae gan breswylwyr mewn tai gwarchod gyfeiriadau post unigol, dylid ystyried y rhain fel ymweliadau unigol a dylai ffi Gwasanaeth Symudol fod yn daladwy ar gyfer pob un.

## TYSTYSGRIFAU HC3

Gall claf sydd â thystysgrifau HC3 dilys ar adeg ei brawf golwg preifat fod yn gymwys i gael cymorth tuag at ei gost os yw'r swm ym Mlwch A ar y dystysgrif HC3 yn is na chost prawf golwg preifat a hefyd yn is na ffi Archwiliad Llygaid WGOS 1.

Os yw'r claf yn gymwys i gael cymorth tuag at gost prawf golwg preifat, dylid llenwi ffurflen hawlio GOS 5W.  Cyfrifir y swm i'w hawlio fel a ganlyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth yr Hawliad | = | Ffi prawf Golwg Preifat neu Ffi archwiliad llygaid WGOS 1 (Pa un bynnag yw'r isaf) | - | Cyfraniad y claf (Blwch A ar dystysgrif HC3) |

Gall claf sydd â thystysgrif HC3 ddilys ar adeg y prawf golwg preifat fod yn gymwys i gael cymorth tuag at gost teclyn optegol os yw'r swm ym Mlwch B ar y dystysgrif HC3 yn is na chost teclyn optegol a ariennir

yn breifat a hefyd yn is na Thaleb Optegol WGOS ar gyfer y presgripsiwn sbectol gofynnol. Mae hyn yn debygol o gael ei sefydlu ar yr adeg cyflenwi.

## PROFION GOLWG PREIFAT

Nid yw Archwiliad Llygaid WGOS 1 a Phrofion Golwg Preifat yr un peth. Rhaid i'r Contractwr felly wneud pob ymdrech i sefydlu a yw'r claf yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 cyn i'r archwiliad ddechrau.

Bydd adegau, er gwaethaf pob ymdrech gan y Contractwr, pan fydd y claf yn hysbysu'r Contractwr ei fod yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar adeg talu am y prawf golwg preifat. Mewn achosion o'r fath, er mwyn gallu hawlio Archwiliad Llygaid WGOS 1, rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod yr elfennau ychwanegol yn cael eu cwblhau h.y. rhaid rhoi cyngor gofal iechyd atal a lles wedi'i deilwra i'r claf ynghylch ei iechyd cyffredinol a'i iechyd ociwlar gyda'r cyngor wedi'i nodi yn y cofnod ac ar y Cynllun Rheoli'r Claf. Gall hyn gael ei gyflwyno o bell.

Os yw claf, ar adeg cyflenwi, wedi dod yn gymwys i gael taleb, gall Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig roi taleb, hyd yn oed os oes gan y claf bresgripsiwn gan Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty neu bresgripsiwn preifat. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid oes angen cyflawni WGOS 1, oni bai eich bod yn credu bod newid wedi bod yn y presgripsiwn. Yn lle hynny, os yw'n fodlon fod y claf yn gymwys i gael taleb, dylai'r Optometrydd neu'r Ymarferydd Meddygol Offthalmig gopïo manylion y presgripsiwn o'r presgripsiwn preifat neu bresgripsiwn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty i'r daleb optegol. Dylid anodi'r blwch llofnod gyda 'trawsgrifiwyd gan' ynghyd ag enw'r Optometrydd neu'r Ymarferydd Meddygol Offthalmig a'r rhif rhestr, llofnod a dyddiad. Dylai'r trawsgrifiwr gynnwys dyddiad y presgripsiwn y mae'r daleb yn seiliedig arno. Mae'n arfer da cofnodi enw a chyfeiriad y presgripsiynydd gwreiddiol, ynghyd â dyddiad a manylion y presgripsiwn, ar gofnod y claf.

Os bydd claf, ar ôl prawf golwg preifat, yn prynu sbectol yn breifat ac yna'n dod yn gymwys i gael taleb yn ddiweddarach, dim ond yn unol â'r canllawiau ar sail traul a gwisgo teg y dylid rhoi'r daleb.

## FFURFLENNI AC AD-DALIADAU HC5W(O)

Os bydd claf yn darganfod, ar ôl derbyn a thalu am brawf golwg preifat, ei fod, ar adeg y prawf hwnnw, yn gymwys i gael Archwiliad Llygaid WGOS 1, gall y claf gael ad-daliad gan ddefnyddio'r ffurflen HC5(O). Rhaid i'r claf gyflwyno'r ffurflen o fewn tri mis i'r dyddiad y cynhaliwyd y prawf golwg preifat.

Gellir cael y ffurflenni HC5W(O) yma

Dylai'r claf anfon ffurflenni HC5(O) at yr asiantaeth budd-daliadau i'w cymeradwyo. Unwaith y caiff ffurflen ei chymeradwyo gan yr asiantaeth budd-daliadau, anfonir hi at dîm taliadau PCGC a chaiff y claf ei ad-dalu'n uniongyrchol.

# WGOS 2

*Gall y gwasanaeth hwn gael ei gyflawni gan Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sydd wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru.*

*Gall Optometrydd sy'n Fyfyriwr gyflawni WGOS 2 o dan oruchwyliaeth Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig y mae ei enw wedi'i gynnwys ar Restr Offthalmig Cymru ac sydd ar y safle. Rhaid i'r Goruchwyliwr fod ar y safle bob amser.*

*Mae Optegydd Lensys Cyffwrdd yn gallu cyflawni WGOS 2: Band 1 (problemau acíwt gyda rhan blaen y llygad) a WGOS 2: Band 3 (triniaeth ddilynol i WGOS 2: Band 1 problem acíwt gyda rhan blaen y llygad) os:*

- *oes ganddo gymwysterau / hyfforddiant addas i gyflawni'r gwasanaeth*
- *yw wedi'i gynnwys ar Restr Weinyddol Cymru*
- *yw'n meddu ar Yswiriant Indemniad i ddarparu ar gyfer y cyfrifoldebau estynedig sy'n gysylltiedig â chyflawni WGOS 2*
- *yw wedi cael gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o fewn y 6 mis cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd i ddarparu'r gwasanaeth*
- *yw wedi gallu darparu dau eirda clinigol yn ymwneud â dwy swydd glinigol ddiweddar (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf).*
- *oes Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig ar y safle ac sy'n gallu ymyrryd*

Mae WGOS 2 yn caniatáu i dri gwasanaeth (band) gofal llygaid gwahanol gael eu cwblhau mewn gofal sylfaenol.

Mae'r canlynol yn amlinellu'r bandiau:

Band 1: Mae'r archwiliad hwn ar gyfer cleifion sydd â phroblemau llygaid o natur acíwt. Gellir ei ddefnyddio hefyd i dderbyn atgyfeiriadau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall

Band 2: Mae'r archwiliadau hyn yn galluogi cleifion i gael ymchwiliadau ychwanegol yn dilyn WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat yn unig. Dim ond i hysbysu neu atal atgyfeirio pellach i wasanaeth llygaid yr ysbyty y gellir eu defnyddio.

Band 3: Mae archwiliad Band 3 yn galluogi claf i gael apwyntiad dilynol ar ôl iddo gael apwyntiad cychwynnol ar gyfer WGOS 2: Band 1 neu ar gyfer archwiliad cataract ar ôl llawdriniaeth.

Cyfeiriwch at yr adran berthnasol am fanylion pellach

## PROTOCOLAU AR GYFER OPTEGWYR LENSYS CYFFWRDD SY'N DARPARU WGOS 2: BAND 1 A BAND 3

Gall Optegydd Lensys Cyffwrdd gyflwyno WGOS 2: Band 1 problem gyda rhan blaen y llygad a WGOS 2: Band 3 dilyniant os:

- oes ganddynt gymwysterau / hyfforddiant addas i gyflawni'r gwasanaeth
- yw wedi'i gynnwys ar Restr Weinyddol Cymru
- oes Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig ar y safle

Rhaid i enw'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig fod yn weladwy ar y cerdyn cofnod.

### *Tonometreg cyswllt a/neu roi diferion llygaid*

Byddai rhoi anesthetig uniongyrchol i dynnu rhywbeth na ddylai fod ar y cornbilen/tonometreg cyswllt yn cael ei wneud fel swyddogaeth ddirprwyedig gan yr Optometrydd ar y safle.

# WGOS 2: Band 1

*Gallai claf gael mwy nag un episod WGOS 2: Band 1 y flwyddyn cyn belled ag y bo'r rheswm clinigol dros bob un yn wahanol.*

*Dylai cleifion sy'n atgyfeirio eu hunain neu sy'n cael eu hatgyfeirio gan Ymarferwyr Gofal Iechyd eraill ar gyfer WECS 2: Band 1 gael eu brysbennu i benderfynu ar gymhwysedd, a'r brys sydd i'w gweld.*

*Rhaid i Gontractwr* ***ymateb*** *i'r claf o fewn 24 awr i'r claf gysylltu ag ef.  Nid oes unrhyw ddisgwyliad bod pob claf yn cael ei* ***weld*** *o fewn 24 awr.*

*Disgwylir i gontractwyr gynorthwyo cleifion sy'n ymddangos yn ystod eu horiau craidd cytunedig.*

*Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm am y WGOS 2: Band 1 ac mae gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / yr Optegydd Lensys Cyffwrdd, a all gynnwys Prawf Golwg a Chynllun Rheoli'r Claf sy'n cyfateb i Archwiliad Llygaid WGOS 1 os caiff ei nodi'n glinigol.*

*Rhaid hysbysu Meddyg Teulu'r Claf o ganlyniad episod WGOS 2: Band 1.*

*Gall Optegydd Lensys Cyffwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd i gyflawni WGOS 2: Band 1 ar gyfer claf sy'n ymddangos gyda phroblem gyda rhan flaen y llygaid gwblhau episod o'r fath dim ond pan fydd yn gweithio ochr yn ochr ac ar yr un safle ag Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig y mae ei enw'n ymddangos ar Restr Offthalmig Cymru.*

Mae archwiliad WGOS 2: Band 1 yn galluogi cleifion sydd â chyflyrau llygaid acíwt i gael archwiliad llygaid am ddim. Mae'r rhestr gyflawn o gymhwysedd isod:

1. Mae gan y claf broblem llygaid acíwt (hunan-atgyfeiriad neu atgyfeiriad gan ymarferydd gofal iechyd arall)
2. Atgyfeiriad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall ar gyfer ymchwiliad pellach e.e., Meddyg Teulu, offthalmolegydd, fferyllydd, gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd, gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW).
3. Llwybrau eraill y cytunwyd arnynt gan brotocolau'r Bwrdd Iechyd

O dan rai amgylchiadau gellir cyflawni mwy nag un Band 1 y flwyddyn ar gyfer cleifion. Mae'r mesurau diogelu arferol o ran gwneud penderfyniadau yn berthnasol a rhaid cofnodi'r rhesymau a'r amgylchiadau perthnasol yn y cofnodion clinigol. Dyma rai enghreifftiau:

- Gellir cynnig ail archwiliad Band 1 i glaf sydd â chyflwr clinigol gwahanol i'r un yn yr archwiliad Band 1 cyntaf. Mae'n rhaid i'r penderfyniad i gynnig yr archwiliad Band 1 ychwanegol hwn gael ei amlinellu'n glir yn y nodiadau e.e. mae'r claf yn cael archwiliad Band 1 yn yr ymweliad cyntaf ar gyfer llygad coch acíwt ac yna mae'n dychwelyd 2 fis yn ddiweddarach gydag episod clinigol digyswllt o fflachiadau a smotiau tywyll yn nofio yn y maes golwg. Byddai'r ail ymweliad hefyd yn gymwys ar gyfer Band 1.
- Pan fo claf sy'n ymddangos gyda'r un cyflwr yn ail-ddigwydd yn yr un llygad a bod naill ai newid sylweddol yn y cyflwr neu ysbaid sylweddol rhwng yr episodau/ymddangosiad, gellir cwblhau ail archwiliad Band 1. Dylai'r cofnodion ddangos tystiolaeth o gyfiawnhad dros yr ail hawliad.

## MAE GAN Y CLAF BROBLEM LLYGAID ACÍWT

### *Cymhwysedd*

Gall ymarferydd gyflwyno hawliad dim ond os yw claf yn dangos symptomau acíwt ac ar ôl brysbennu gan yr Optometrydd/Ymarferydd Meddygol Offthalmig/Optegydd Lensys Cyffwrdd, yr ystyrir bod angen ymchwiliad clinigol arno. Dylai'r math o symptom neu broblem llygaid a faint o amser sydd ers iddynt ddechrau gael eu nodi'n glir ar gerdyn cofnod y claf.

Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r ymarferydd ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu ar y brys y dylid ei roi i gynnal yr apwyntiad. Sylwch, er bod yn rhaid i'r Contractwr ***ymateb*** i'r claf o fewn 24 awr, nid oes disgwyl i bob claf gael ei ***weld*** o fewn 24 awr.

Disgwylir i gontractwyr allu cynorthwyo'r claf o fewn yr oriau craidd y cytunwyd arnynt. Unwaith y bydd y claf yn dod i'r practis, mae gan y Contractwr rwymedigaeth i sicrhau bod y claf yn cael ei reoli'n briodol o fewn yr amserlen a nodir gan frysbennu. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai hyn yn golygu trefnu i'r claf gael ei weld gan Gontractwr gwahanol.

**NODER** os yw Contractwr yn gwrthod cynorthwyo / darparu gwasanaeth WGOS i glaf cymwys (e.e. mae practis wedi dweud wrth glaf am gysylltu â phractis arall ei hun), rhaid hysbysu'r Bwrdd Iechyd.

*Archwiliad*

Os bydd claf yn ymddangos gyda problem llygaid y mae angen ymchwiliad brys iddi, yna:

- Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros atgyfeirio a bydd gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd ( am arweiniad cyfeiriwch at Ganllawiau Ymarfer Proffesiynol a Rheolaeth Glinigol Coleg yr Optometryddion).
- Nid oes angen prawf plygiant fel arfer, oni bai y gallai helpu i bennu natur y broblem llygaid acíwt (e.e., cur pen neu diplopia) a dylid ei gynnal yn unol â barn broffesiynol yr ymarferydd. Gall hwn fod yn brawf plygiant diagnostig os nad oes unrhyw fwriad i ragnodi ohono, ac felly efallai na fydd yn golygu archwiliad llygaid / prawf golwg. Os canfyddir bod angen rhagnodi sbectol, rhaid cwblhau pob elfen a fyddai'n gyfystyr â phrawf golwg fel y'u diffinnir yn Neddf Optegwyr 1989, a gellir rhoi taleb GIG os yw'r claf yn gymwys. Yn yr achos hwn ni fyddai'r elfennau cyfannol a orchmynnir yn Archwiliad Llygaid WGOS 1 yn ddewisol, yn seiliedig ar ddisgresiwn Optometryddion / Ymarferwyr Meddygol Offthalmig.

**NODER** Yn ogystal â darparu'r cyngor / rheolaeth briodol i'r claf, rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd hefyd hysbysu Meddyg Teulu'r claf o ganlyniad yr archwiliad (Gweler adroddiadau a'r adran atgyfeirio). Mae'n dderbyniol anfon un llythyr ar gyfer archwiliad Band 1 ac archwiliad Band 3 dilynol ar yr amod ei fod yn cael ei anfon o fewn amser nad yw'n peryglu diogelwch cleifion.

## ATGYFEIRIAD GAN WEITHIWR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL ARALL

*Cymhwysedd*

Os oes gan feddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall bryderon ynghylch iechyd llygaid claf, gallant eu hatgyfeirio am archwiliad WGOS 2: Band 1. Gall y claf fod o unrhyw oedran a gall yr atgyfeiriad godi am amrywiaeth o resymau e.e. Meddyg Teulu yn rheoli cur pen anesboniadwy, neu Fferyllydd yn atgyfeirio unigolyn sydd â haint llygad.

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, bydd y claf yn cael ei frysbennu gan y Contractwr a bydd yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd yn penderfynu ar faint o frys y mae angen gweld y claf. Sylwch, er bod yn rhaid i'r Contractwr ***ymateb*** i'r claf o fewn 24 awr, nid oes disgwyl i bob claf gael ei ***weld*** o fewn 24 awr.

### *Archwiliad*

Os caiff claf ei atgyfeirio gan ymarferydd gofal iechyd, yna:

- Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros atgyfeirio ac mae gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd (am ganllawiau cyfeiriwch at Ganllawiau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Rheolaeth Glinigol Coleg yr Optometryddion
- Nid oes angen prawf plygiant fel arfer, oni bai y gallai helpu i bennu natur y broblem llygaid acíwt (e.e., cur pen neu diplopia) a dylid ei gynnal yn unol â barn broffesiynol yr ymarferydd. Gall hwn fod yn brawf plygiant diagnostig os nad oes unrhyw fwriad i ragnodi ohono, ac felly efallai na fydd yn golygu archwiliad llygaid / prawf golwg. Os canfyddir bod angen rhagnodi sbectol, rhaid cwblhau pob elfen a fyddai'n gyfystyr â phrawf golwg fel y'u diffinnir yn Neddf Optegwyr 1989, a gellir rhoi taleb GIG os yw'r claf yn gymwys. Yn yr achos hwn ni fyddai'r elfennau cyfannol a orchmynnir yn Archwiliad Llygaid WGOS 1 yn ddewisol, yn seiliedig ar ddisgresiwn Optometrydd/ Ymarferydd Meddygol Offthalmig.

**NODER** Yn ogystal â darparu'r cyngor / rheolaeth briodol i'r claf, rhaid i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd hefyd hysbysu Meddyg Teulu'r claf o ganlyniad yr archwiliad (Gweler Adroddiadau a'r Adran Atgyfeirio).

## ARCHWILIADAU ER MWYN CYDYMFFURFIO Â PHROTOCOLAU'R BWRDD IECHYD

- Mae llwybrau eraill y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Iechyd i'w gweld ar wefan Gofal Llygaid Cymru.

# WGOS 2: Band 2

*Pwrpas WGOS 2: Band 2 yw hysbysu neu atal atgyfeirio ymlaen.*

*Rhaid i episod WGOS 2: Band 2 ddilyn Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu brawf golwg preifat.*

*Oni bai bod llwybr y cytunwyd arno'n lleol, dim ond un hawliad WGOS 2: Band 2 a all ddilyn Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu brawf golwg preifat.*

*Rhaid i episod WGOS 2: Band 2 ar yr un diwrnod neu ar ddiwrnod dilynol i'r Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat.*

*Oni bai bod llwybr y cytunwyd arno'n lleol, ni ellir hawlio am WGOS 2: Band 2 a WGOS 2: Band 3 ar yr un diwrnod.*

*Rhaid i episod WGOS 2: Band 2 yn lle archwiliad Band 3 os canfyddir symptomau annisgwyl neu arwyddion sydd angen ymchwiliad pellach yn ystod asesiad Ôl-gataract.*

*Rhaid hysbysu Meddyg Teulu'r Claf o ganlyniad episod WGOS 2: Band 2*

WGOS 2: Band 2 yn galluogi cleifion i gael ymchwiliadau ychwanegol wedi'u hariannu gan GIG Cymru. Gellir eu defnyddio i hysbysu neu atal atgyfeirio ymlaen ymhellach.

### *Cymhwysedd*

Mae cleifion yn gymwys ar gyfer WGOS 2: Band 2 os yw'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sy'n cynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu brawf golwg preifat yn nodi arwyddion neu symptomau y gallai fod angen eu hatgyfeirio a byddai cyflawni archwiliad Band 2 yn hwyluso ychwanegu gwybodaeth werthfawr at yr atgyfeiriad hwnnw neu hyd yn oed yn ei atal.

Ni ddylid defnyddio'r categori hwn fel dilyniant i unrhyw fath o archwiliad WGOS 2 Band 1.

Rhaid i episod WGOS 2: Band 2 ar yr un diwrnod ag Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu brawf golwg preifat ond gellid ei gynnal ar ddiwrnod gwahanol yn unol ag anghenion y claf neu anghenion clinigol.

Mewn asesiadau ar ôl llawdriniaeth cataract, gellir hawlio archwiliad Band 2 yn lle archwiliad Band 3 os canfyddir symptomau neu arwyddion annisgwyl sydd angen ymchwiliad pellach.

### *Archwiliad*

Ym mhob achos gellir hawlio ffi WGOS 2 Band 2 dim ond pan oedd ymyriad yn:

1) ofynnol yn glinigol, ac
2) nad oedd yn rhan o'r Prawf Golwg / Archwiliad Llygaid WGOS 1 blaenorol oni bai bod angen ailadrodd.

Mae'r canlynol yn ganllawiau ar ymchwiliadau a ***fyddai'n*** cael eu hystyried yn briodol ar gyfer Band 2 (Sylwer nad yw hon yn rhestr gyflawn).

- Asesiad cyn llawdriniaeth cataract
- Prawf plygiant seicloplegig
- Archwiliad maes gweledol maes eang (e.e. 60 gradd) cysylltiedig â throthwy ar gyfer cur pen anesboniadwy
- Tonometreg gwastatu a/neu feysydd gweledol cysylltiedig â throthwy ar gyfer claf lle'r oedd y canlyniadau dechreuol yn awgrymu glawcoma er mwyn llywio/atal atgyfeiriad drwy'r llwybr sefydledig
- Asesiad Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) er mwyn mireinio neu atal atgyfeiriad
- Asesiad cataract ar ôl llawdriniaeth lle canfyddir bod gan y claf leihad anesboniadwy yn ei olwg neu unrhyw arwyddion / symptomau yn y naill lygad neu'r llall sy'n gofyn am ymchwiliadau pellach. Gellir cyflawni Band 2 yn lle Band 3 i benderfynu a oes angen atgyfeirio yn ôl i'r ysbyty, a hysbysu'r atgyfeiriad lle nodir hynny.

Ni fyddai'r profion canlynol ***ar eu pen eu hunain*** fel arfer yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer Band 2:

- Ymledu cannwyll y llygad i gael gwell golwg ar y ffwndws (e.e., claf asymptomatig gyda channwyll llygad bach) oni bai bod arwyddion a/neu symptomau yn bresennol sy'n gyfiawnhad clinigol dros ymledu.
- Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) i sefydlu neu gymharu â darlleniadau llinell sylfaen
- Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) lle nad oes unrhyw gwestiwn o atgyfeirio
- Tomograffeg Retina Heidelberg (HRT)
- Pachymetreg
- Ffotograffiaeth y ffwndws
- Chwistrell neu blygiau punctum ar gyfer llygad sych
- Goniosgopi

NODER Oni bai bod llwybr a gomisiynir yn lleol yn caniatáu, ni ddylai Band 3 a Band 2 gael eu hawlio ar gyfer yr un claf ar yr un diwrnod ar unrhyw adeg.

# WGOS 2: Band 3

*Rhaid i episod WGOS 2: Band 3 dim ond yn dilyn WGOS 2: Band 1 neu fel asesiad ar ôl llawdriniaeth cataract.*

*Ni ddisgwylir i bob episod WGOS 2: Band 1 fod angen apwyntiad WGOS 2: Band 3.*

*Lle mae angen clinigol, gellir hawlio mwy nag un WGOS 2: Band 3.*

*Dylai'r archwiliad fod yn briodol i'r rheswm am yr apwyntiad a bydd y gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd.*

*Rhaid hysbysu Meddyg Teulu'r Claf o ganlyniad episod WGOS 2: Band 3.*

*Gall Optegydd Lensys Cyffwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd i gyflawni WGOS 2: Band 3 yn dilyn episod WGOS 2: Band 1 gyflawni episod o'r fath pan mae'n gweithio ochr yn ochr ac ar yr un safle ag Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig y mae ei enw yn ymddangos ar Restr Offthalmig Cymru yn unig.*

WGOS 2: Band 3:

- er mwyn darparu dilyniant i WGOS 2: Band 1
- Pan fydd claf wedi'i ryddhau i optometreg i gael asesiad ar ôl llawdriniaeth cataract
- Fel rhan o lwybr arall y cytunwyd arno gan y Bwrdd Iechyd

## FEL DILYNIANT I FAND 1

### *Cymhwysedd*

Yn dilyn WGOS 2: Band 1 efallai y bydd Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd yn ystyried ei bod yn glinigol angenrheidiol i adolygu'r claf eto i sicrhau bod y claf yn cael ei reoli'n glinigol yn y ffordd fwyaf priodol. O bryd i'w gilydd, gallai hyn olygu bod y claf yn cael ei adolygu ar fwy nag un achlysur.

Er bod lle i arfer barn glinigol mewn achosion unigol, ni fyddai'n briodol cwblhau Band 3 yn dilyn pob Band 1. Gan fod gan y Byrddau Iechyd y disgresiwn i ofyn i'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig gyfiawnhau eu penderfyniadau, rhaid i'r cofnod gefnogi'r rheswm dros gwblhau'r Band 3.

Gall yr apwyntiad hwn fod naill ai:

1. Wedi'i drefnu
   Trefnir yr apwyntiad ar ôl cwblhau WGOS 2: Band 1 a chyn i'r claf adael y practis. Mae enghreifftiau yn cynnwys (Sylwer nad yw hon yn rhestr gyflawn):
   - Ail-asesu claf â keratitis ymylol
   - Ail-asesu claf â chrafiad ar y gornbilen
   - Ailasesu claf ar ôl tynnu rhywbeth sydd ddim i fod yno
   - Ailasesu claf â llygad coch nad yw'n gwella
   - Dilyniant i friwiau ar y gornbilen o darddiad anhysbys
2. Heb ei drefnu
   Trefnir yr apwyntiad pan mae'r claf, a welwyd yn ddiweddar ar gyfer WGOS 2: Band 1, yn ail-ymddangos i'r Contractwr ar achlysur arall gan fod y symptomau'n parhau neu wedi gwaethygu pan gafodd ei gynghori y dylai'r symptomau wella.

Os yw'r WGOS 2: Band 3 yn apwyntiad "wedi'i drefnu", byddai hyn yn dangos bod yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd yn dymuno gwirio bod symptomau / arwyddion y claf yn gwella. Yn yr achos hwn, byddai'n amhriodol amserlennu Archwiliad Llygaid WGOS

1 neu brawf golwg preifat nes ei bod yn hysbys bod y mater wedi'i ddatrys yn llawn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall Archwiliad Llygaid WGOS 1 a WGOS 2: Band 3 i ddilyn Band 1 gael eu hawlio ar yr un diwrnod.

### *Archwiliad*

Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros adolygu ac mae'r gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd.

## ASESIAD AR ÔL LLAWDRINIAETH CATARACT

### *Cymhwysedd*

Pan fydd claf yn ymddangos i'r Contractwr yn dilyn llawdriniaeth gataract a ariennir gan y GIG, ar gyfer ei Archwiliad Llygaid WGOS 1 ar ôl llawdriniaeth neu brawf golwg preifat ar ôl ei lawdriniaeth, gellir hawlio WGOS 2: Band 3 am gwblhau adroddiad ôl-lawdriniaethol ar gyfer Offthalmoleg.

Noder:

- Os bydd asesiad cataract ar ôl llawdriniaeth yn canfod gostyngiad anesboniadwy yn y golwg neu os bydd y claf yn dangos arwyddion / symptomau yn ***y naill*** lygad ***neu'r*** llall sy'n gofyn am ymchwiliadau pellach dilynol, gellir cwblhau Band 2 yn lle Band 3 i benderfynu a oes angen atgyfeirio ymlaen a hysbysu'r atgyfeiriad lle nodir hynny.
- Oni bai bod llwybr a gomisiynir yn lleol yn caniatáu, ni ddylid hawlio Band 3 a Band 2 ar unrhyw adeg ar gyfer yr un claf ar yr un diwrnod.

### *Archwiliad:*

Dylai lefel yr archwiliad fod yn briodol i'r rheswm dros adolygu ac mae'r gweithdrefnau yn ôl disgresiwn yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig / Optegydd Lensys Cyffwrdd.

## Talebau Optegol WGOS

*Dim ond Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig a restrir ar Restr Offthalmig Cymru all roi Taleb Optegol WGOS i berson cymwys pan fo newid sylweddol wedi bod yn y presgripsiwn sbectol, neu pan nad yw'r sbectol bellach yn ddefnyddiol oherwydd traul neu wisgo teg neu pan nad ydynt bellach yn ffitio.*

*Os yw'r claf yn gymwys i gael Taleb Optegol WGOS, dylid ei rhoi iddo yn dilyn Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu brawf golwg preifat sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan dystysgrif HC3W.*

*Dylai'r cofnodion ddangos bod taleb wedi'i rhoi.*

*Mae Taleb Optegol WGOS yn ddilys dim ond tra bo'r claf yn gymwys ac am uchafswm o ddwy flynedd o'r dyddiad y'i cyhoeddwyd. Rhaid i'r Cyflenwr wirio cymhwyster y claf i gael y daleb ar y dyddiad y mae'r claf yn archebu'r sbectol neu'r lensys cyffwrdd, os oes unrhyw oedi rhwng rhoi'r daleb ac archebu'r teclyn.*

Gall cleifion cymwys gael Taleb Optegol WGOS (GOS3 W) y maent yn ei defnyddio mewn practis o'u dewis. Mae gan y claf hawl i 'wario' taleb o swm penodol ar neu tuag at sbectol / lensys cyffwrdd o'u dewis, ar yr amod eu bod yn dal yn gymwys ar adeg archebu'r sbectol / lensys cyffwrdd.

## Dyletswydd i sicrhau bod sbectol sylfaenol ar gael

*Mae'n ofynnol i gontractwyr sy'n darparu WGOS ac sy'n gwerthu sbectol gynnig sbectol sylfaenol i gleifion sy'n bodloni manyleb presgripsiwn yr unigolyn ac sydd o fewn gwerth y daleb berthnasol y mae gan yr unigolyn hawl iddi, ni waeth ble yn y DU y cafodd y daleb optegol ei rhoi.*

Mae Taleb Optegol WGOS lawn (h.y. nid taleb HC3W) yn sicrhau bod gan glaf cymwys y disgwyliad o gael teclyn optegol ymarferol heb fynd i gost.

Rhaid i gleifion gael y dewis o gael sbectol addas o fewn gwerth eu taleb, nid dim ond grant tuag at gost sbectol ddrutach. Rhaid i'r sbectol addas fod yn un golwg sengl, yn ddeuffocal neu'n amlffocal fel y'i pennir gan y rhagnodwr neu fel arall yn un golwg sengl, deuffocal neu amlffocal yn unol â dewis y claf. Fodd bynnag, cyn belled ag y bodlonir y disgwyliad o ddarparu teclyn optegol ymarferol heb fynd i gost, gellir cynnig dewis i glaf dalu tuag at declyn gwahanol.

# Cymhwysedd

*Mae'n ofynnol i'r Contractwr ddilysu cymhwysedd claf am daleb.*

*Er mwyn gallu hawlio ei daleb, mae'n ofynnol i'r claf fod yn gymwys ar y dyddiad y mae'n archebu ei declyn optegol.*

*Os nad yw claf yn gallu darparu tystiolaeth o gymhwysedd, dylai'r Contractwr nodi hyn ar y ffurflen hawlio.*

Gellir rhoi Taleb Optegol WGOS yn syth ar ôl episod Archwiliad Llygaid WGOS 1, WGOS 2: Band 1 (a oedd yn cynnwys plygiant a phob prawf arall i ddeall effaith y canlyniad rhagnodedig) neu brawf golwg preifat sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan dystysgrif HC3.

Os yw'r claf:

1. yn perthyn i un o'r categorïau a restrir yn rhan A o **Error! Reference source not found.** ac
2. Mae canlyniad episod Archwiliad Llygaid WGOS 1; WGOS 2: Band 1 (a oedd yn cynnwys prawf plygiant a phob prawf arall i ddeall effaith y canlyniad rhagnodedig); neu brawf golwg preifat sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan dystysgrif HC3; yn bodloni un o'r meini prawf a restrir yn rhan B o'r tabl canlynol:

### Meini prawf cymhwyster ar gyfer Cyfarpar Optegol a ariennir gan GIG Cymru

| RHAN A | RHAN B |
|---|---|
| • Plant dan 16 oed<br>• Myfyrwyr mewn addysg amser llawn, 16-18 oed<br>• Dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal Awdurdod Lleol<br>• Oedolion sy'n derbyn:<br>  ○ Cymhorthdal Incwm (a'u partneriaid)<br>  ○ Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA)<br>  ○ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm (ESA)<br>  ○ Gwarant Credyd Pensiwn<br>  ○ Credyd Treth<br>  ○ Credyd Cynhwysol<br>• Cleifion sydd â thystysgrif HC2 (cymorth llawn) neu dystysgrif HC3 (cymorth rhannol).<br>• Carcharorion sydd ar Absenoldeb Awdurdodedig (PoL) | • Roedd yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig o'r farn bod newid clinigol sylweddol wedi bod yn y presgripsiwn sbectol<br>• Ni chanfu'r Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig unrhyw newid sylweddol yn y presgripsiwn sbectol ond roedd yn barnu nad oedd y sbectol / lensys cyffwrdd bellach yn ffitio neu nad oedd modd eu trin bellach oherwydd traul a gwisgo teg |

- Cleifion sydd angen lensys cymhleth

**NODER** Pan fo newid ym manyleb y lensys cyffwrdd ond dim newid yn y presgripsiwn sbectol, ni ellir rhoi taleb.
Fel arfer disgwylir i sbectol bara am ddwy flynedd. Fodd bynnag, nid yw hwn yn derfyn statudol.
Dim ond os yw'r presgripsiwn sbectol wedi newid y gellir rhoi taleb ar gyfer lensys cyffwrdd untro neu rai y bwriedir eu hamnewid. Nid yw lensys cyffwrdd untro neu rai y bwriedir eu hamnewid yn rhoi hawl i glaf gael taleb ar sail traul a gwisgo teg.

Gellir rhoi taleb yn ddiweddarach os yw'r presgripsiwn yn dal yn ddilys ac

- mae'r claf yn perthyn i un o'r categorïau a restrir yn rhan A y tabl uchod ac ar adeg Archwiliad Llygaid WGOS 1 / WGOS 2: Band 1 / Prawf Golwg Preifat, na fu unrhyw newid sylweddol yn y presgripsiwn sbectol ac roedd gan y claf declyn optegol defnyddiol i gywiro ei olwg, ond ar adeg y cyflenwi nad oes ganddo unrhyw fath o gywiriad optegol 'defnyddiol' ar gael iddo mwyach oherwydd difrod / colled
- nad oedd gan y claf ar adeg ei Archwiliad Llygaid / Prawf Golwg Preifat WGOS 1 diwethaf hawl i sbectol / lensys cyffwrdd a ariennir gan GIG Cymru gan nad oedd yn bodloni unrhyw un o'r categorïau a restrir yn Rhan A o'r tabl uchod, ond ar yr adeg y cyflenwi, ei fod yn gymwys. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid oes angen Archwiliad Llygaid WGOS 1, oni bai bod rheswm i gredu bod newid wedi bod yn y presgripsiwn. Ar ôl bodloni ei hun bod y claf yn gymwys i gael taleb, dylai'r ymarferydd gopïo'r presgripsiwn i WGOS 3. Yn y blwch llofnod dylai'r ymarferydd ysgrifennu 'trawsgrifiwyd gan' a nodi ei enw a'r rhif rhestr a llofnodi a dyddio'r ffurflen gan nodi dyddiad y presgripsiwn y mae'r GOS 3W yn seiliedig arno. Mae'n arfer da cofnodi enw a chyfeiriad y presgripsiynydd gwreiddiol, ynghyd â dyddiad a manylion y presgripsiwn, ar gofnod y claf.

Ar adeg cyflenwi, os bydd claf a fyddai fel arfer yn cael ei weld yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty am brawf golwg / plygiant wedi dod yn gymwys i gael cymorth tuag at gost ei declyn optegol, gall Perfformiwr roi taleb WGOS 3. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni ddylid cynnig Archwiliad Llygaid WGOS 1 i'r claf, oni bai bod rheswm i gredu bod newid wedi bod yn y presgripsiwn neu fod y presgripsiwn a roddwyd gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty wedi dyddio. Ar ôl bodloni ei hun bod y claf yn gymwys i gael taleb, dylai'r ymarferydd gopïo'r presgripsiwn o'r ffurflen bresgripsiwn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) i daleb WGOS 3. Yn y blwch llofnod dylai'r ymarferydd ysgrifennu 'trawsgrifiwyd gan' a nodi ei enw a'r rhif rhestr a llofnodi a dyddio'r ffurflen gan nodi dyddiad y presgripsiwn y mae'r GOS 3W yn seiliedig arno. Mae'n arfer da cofnodi enw a chyfeiriad y presgripsiynydd gwreiddiol, ynghyd â dyddiad a manylion y presgripsiwn, ar gofnod y claf.

## METHU Â GODDEF

Mewn achosion eithriadol lle na all claf oddef ei sbectol newydd, efallai y bydd angen ail Archwiliad Llygaid WGOS 1, gyda chod galw'n ôl.  Os bydd y prawf hwn yn golygu bod angen presgripsiwn optegol gwahanol ar y claf, gellir rhoi taleb.  Dylai cofnod y claf nodi'r rheswm pam y mae'r daleb ddilynol wedi'i rhoi.

Nid yw methu â goddef yn cynnwys gwallau Perfformiwr/practis/gwydro.

# Dewis y Daleb Optegol WGOS gywir

Gellir defnyddio taleb ar gyfer sbectol neu lensys cyffwrdd.   Pennir gwerth y daleb gan bresgripsiwn y sbectol ac nid ar gryfder y lensys cyffwrdd.

*(Gwerthoedd y talebau i'w cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.)*

| Single Vision | Cyl | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sph | 0.25–2.00D | 2.25–6.00D | 6.25–10.00D | ≥ 10.25D |
| Pl–6.00D | (1) | | | |
| 6.25–9.75D | (2) | | | |
| 10.00–14.00D | (3) | | (4) | (5) |
| 14.25–20.00D | | | | |
| ≥ 20.25D | | | | |

| Bifocals / Multifocals | Cyl | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sph | 0.25–2.00D | 2.25–6.00D | 6.25–10.00D | ≥ 10.25D |
| Pl–6.00D | (6) | | | |
| 6.25–9.75D | (7) | | | |
| 10.00–14.00D | (8) | | (9) | (10) |
| 14.25–20.00D | | | | |
| ≥ 20.25D | | | | |

| | Single Vision | Multifocal |
|---|---|---|
| Prisms (per lens) | | |
| Tint / photochromic (per lens) | | |
| U19, non-stock supplement (per frame) | | |
| Small Frame Supplement (per frame) | | |

| | Fee |
|---|---|
| HES Voucher 11 | |
| HES Patient Charge* | |
| Complex lens voucher (single vision) | |
| Complex lens voucher (multifocal) | |

| Repair & Replacement (£) | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| One lens | | | | | | | | | | | |
| Two lenses | | | | | | | | | | | |
| Front of frame | | | Side of frame | | | Whole Frame | | | | | |
| Small frame: Front | | | Side of frame | | | Whole Frame | | | | | |

*Where a Consultant Ophthalmologist deems that a patient has a clinical need for contact lenses, the patient must contribute up to the 'HES patient charg per lens. The HES will cover the remaining costs

Pŵer sfferig uchaf y presgripsiwn sbectol a ffurf y lens sy'n pennu gwerth y daleb.  Os cyflwynir ffurflen GOS 3W i'w chyflenwi ac nad yw'r presgripsiwn wedi'i ysgrifennu yn y ffurf sy'n rhoi'r pŵer sfferig uchaf, dylid trawsosod y presgripsiwn.  Os yw'r presgripsiwn wedi'i drawsosod yn darparu taleb gwerth uwch ac o fudd i'r claf, dylid diwygio'r math o daleb ar y ffurflen hawlio GOS 3W a'i hanodi â "FPN 713".

Mae talebau 1 i 5 ar gyfer dyfeisiau optegol golwg sengl; mae rhai 6 i 10 ar gyfer offer optegol deuffocal / amlffocal.  Mae lensys deuffocal a reolir gan brism yn cael eu dosbarthu fel taleb 9 ym mhob achos, waeth beth fo'r pellter neu'r pŵer darllen.

Bydd Taleb HES 11 yn cael ei rhoi gan ysbyty.  Mae'r daleb hon yn cynnwys offer a ragnodir gan Fwrdd Iechyd / ysbyty nad yw'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau 1 i 10.

### TALEBAU AR GYFER LENSYS AMLFFOCAL A LENSYS CYFRIFIADUR

Mae gwerth y daleb yn cael ei bennu gan ba bresgripsiwn sbectol sydd ei angen ar y claf yn hytrach na'r teclyn y mae'n ei ddewis e.e. os oes angen cywiriad pellter ac ychwanegiad agos ar glaf, gall naill ai gael dau bâr o sbectol neu un pâr o lensys deuffocal /amlffocal a gallwch roi dwy daleb golwg sengl neu un daleb amlffocal.

Pennir gwerth y daleb ar gyfer lens deuffocal/amlffocal gan y presgripsiwn pellter yn unig; anwybyddir yr ychwanegiad darllen, ac eithrio pan fo'r ychwanegiad yn fwy na 4 dioptr yn fwy na'r gyfran pellter.  Yn yr achos hwn gellir hawlio gwerth taleb uwch (pellter / agos).

Os mai dim ond presgripsiwn darllen sydd ei angen ar glaf (h.y., mae'r Claf a/neu'r Optometrydd o'r farn bod y presgripsiwn pellter yn ddibwys) a bod arno angen lensys deuffocal/amlffocal neu lens alwedigaethol, gallwch roi taleb amlffocal.

Mae lensys gwrth-flinder yn cael eu hystyried yn amlffocal ac felly gellir eu hawlio gan ddefnyddio taleb 6-10.

Os yw claf yn dymuno cael lensys gyda phellter gweithio hirach neu fyrrach (yn wahanol i'r hyn y gellir disgwyl iddo fod yn bellter gweithio neu ddarllen cyfforddus) mae hwn yn hawliad rhesymol.  Fodd bynnag, nid yw'n bosibl iddo hefyd gael lensys darllen arferol (dim ond ar gyfer pellter ac un presgripsiwn agos y gellir defnyddio'r daleb) a dylid egluro'n glir iddo na fydd yn gallu cael taleb arall ar gyfer pellter gweithio arall.

### TALEBAU AR GYFER LENSYS CYFFWRDD

Dim ond os yw'r presgripsiwn ***sbectol*** wedi newid y gellir rhoi taleb ar gyfer lensys cyffwrdd untro neu rai y bwriedid eu hamnewid.

Nid yw lensys cyffwrdd untro neu rai y bwriedid eu hamnewid yn rhoi hawl i glaf gael taleb ar sail traul a gwisgo teg.

Gall y claf ddefnyddio ei daleb tuag at gost lensys cyffwrdd.  Gellir defnyddio taleb yn lle taliadau am lensys sy'n cael eu hamnewid yn rheolaidd.

## Lensys Cymhleth

*Nid yw taleb lensys cymhleth yn atodiad - gellir ond ei hawlio ar ei ben ei hun, ond gydag arlliw neu brism fel atodiad os yw'n angenrheidiol yn glinigol.*

Gellir rhoi taleb lensys cymhleth i glaf os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:

1. Mae ganddo bresgripsiwn sbectol o 10 dioptr neu fwy, neu mae angen lensys deuffocal a reolir gan brism arno.
2. Bu newid sylweddol yn y presgripsiwn neu nad oes modd rhoi gwasanaeth i'w offer optegol presennol.
3. Nid yw'n gymwys i gael cymorth gyda chost teclyn optegol ar unrhyw sail arall.

Gellir hawlio tâl atodol ar gyfer prismau ac arlliwiau, os ydynt yn angenrheidiol yn glinigol, yn ogystal â'r daleb lensys cymhleth.

## Addasiadau Pellter Fertig Cefn (BVD).

Os oes angen newid y presgripsiwn sbectol gan fod y ffrâm a gyflenwir yn eistedd ar bellter fertig cefn gwahanol i'r hyn a gofnodwyd ar adeg Archwiliad Llygaid WGOS 1, dylid anodi'r ffurflen GOS 3W neu HES 3 gyda'r geiriau 'newid BVD' yn yr ymyl. Os yw'r newid yn gofyn am fand taleb uwch, dylid anodi'r ffurflen taleb GOS 3W neu HES yn unol â hynny.

## Atodiadau i Lensys

*Mae arlliw neu brism yn atodiad i bresgripsiwn angenrheidiol.*

*Dim ond os oes angen clinigol y dylid darparu atodiadau.*

*Rhaid i atodiad yr arlliw gael ei ragnodi gan yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sy'n cynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1/ prawf golwg preifat. Ni ellir ei ychwanegu at y daleb ar adeg ei gyflenwi.*

*Gellir hawlio'r tâl am yr atodiad lensys plant sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol ar gyfer plentyn ar adeg eu cyflenwi ar gyfer pob claf cymwys sydd â phresgripsiwn sbectol cymwys er mwyn gwella ymddangosiad cosmetig y sbectol.*

Os canfyddir bod angen arlliw neu brism ar glaf am resymau clinigol yn ystod Archwiliad Llygaid WGOS 1 a'i fod yn gymwys i gael teclyn optegol a ariennir gan GIG Cymru (gan gynnwys taleb lensys cymhleth), gellir cynnwys atodiad ychwanegol ar y daleb a roddir. Dim ond yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sydd wedi cynnal Archwiliad Llygaid WGOS 1 sy'n gallu rhagnodi atodiadau o'r fath a dim ond pan fydd yn rhagnodi lens bweredig (h.y. nid yw arlliwiau a phrismau ar gyfer lensys golwg sengl plano dwyochrog yn gymwys ar gyfer cyllid GIG Cymru). Ni ellir eu hychwanegu at y daleb ar adeg eu cyflenwi. Rhaid i'r daleb a roddir gyfateb i bŵer y presgripsiwn ynghyd â'r atodiad ar gyfer yr arlliw neu'r prism.

### ARLLIWIAU

- Dylid nodi'r rheswm clinigol dros y arlliw ar y cofnod clinigol e.e. symptomau, canlyniadau profion neu ganfyddiadau clinigol.  Ni ddylid rhagnodi arlliwiau am y rheswm bod y claf "wedi eu cael o'r blaen" neu ei fod yn gofyn am arlliw am resymau cosmetig.
- Os yw arlliw wedi'i ragnodi fel rhywbeth sy'n angenrheidiol yn glinigol ac y byddai lensys ffotocromig yn addas, yna gellir rhoi lensys ffotocromig yn y sbectol a hawlio tâl am atodiad yr arlliw.
- Nid yw haenau gwrth-adlewyrchu a blociau uwchfioled yn cael eu hystyried yn arlliwiau o dan WGOS.

### PRISMAU

- Dylai'r rheswm pam fod angen prism fod yn amlwg ar y cofnod clinigol.
- Pe bai'r presgripsiwn dioptrig yn ddibwys fel arfer ond bod prism yn angenrheidiol yn glinigol, gellir rhoi taleb gan gynnwys atodiad prism.

Os yw'r Cyflenwr yn gweithredu polisi codi tâl 'hollgynhwysol' (h.y. dim taliadau ychwanegol am arlliwiau a phrismau), cyn belled â bod y claf wedi cael y cyfarpar cywir (gan gynnwys y prism neu arlliw fel y bo'n briodol) a bod pris manwerthu'r offer cyflawn yn hafal i neu'n fwy na gwerth y daleb gan gynnwys unrhyw atodiadau, yna mae gan y Cyflenwr hawl i hawlio gwerth llawn y daleb.

### ATODIAD LENSYS SYDD WEDI'U TEILWRA'N BWRPASOL AR GYFER PLENTYN

Er mwyn sicrhau gwell golwg cosmetig, mae plant sydd angen presgripsiwn sbectol sydd rhwng 4.00 a 6.00D (yn gynwysedig), yn gymwys i gael 'Atodiad Lensys sydd wedi'u Teilwra'n Bwrpasol ar gyfer Plentyn'.  Dylai'r atodiad hwn gael ei ragnodi gan yr Optometrydd / Ymarferydd Meddygol Offthalmig sydd wedi cynnal yr Archwiliad Llygaid WGOS 1.   Gellir hawlio'r tâl atodol os oes tystiolaeth i ddangos bod y claf wedi derbyn lens sy'n gwella'r ymddangosiad cosmetig e.e. lensys ag arwyneb, meintiau gwag llai, lensys mynegrif uwch ac ati.

Gall ysbyty neu ddarparwr WGOS roi'r daleb hon.

## Atodiadau Fframiau

*Dim ond os bodlonir y gofynion isod y bydd Atodiad Ffrâm Fach neu Atodiad ar gyfer Nodwedd Wyneb Arbennig yn ddilys.*

*Dylai'r Cyflenwr wirio mesuriad y ffrâm a chofnodi'r wybodaeth hon ar y cofnodion cyflenwi.*


*Dylid nodi'r holl newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r ffrâm ar y cofnodion cyflenwi.*

### ATODIAD FFRÂM FACH

Dim ond os yw'r teclyn optegol a gyflenwir yn bodloni'r ddau amod canlynol y gellir hawlio atodiad ffrâm fach:

- Mae ganddo ffrâm gyda phellter canol bocs (gweler **Error! Reference source not found.**) o ddim mwy na 55mm, ac
- mae naill ai yn ffrâm sydd wedi'i dylunio gydag addasiadau priodol (e.e., wedi'i chyflenwi â rhannau ffrâm amgen y mae angen eu cydosod yn y practis) neu'n ffrâm stoc y mae angen ei haddasu'n sylweddol (mwy nag addasiadau i ffrâm arferol) er mwyn sicrhau ffit boddhaol.

**Diagram i ddangos sut i fesur Pellter Canol Bocs (BCD) ffrâm.**




Mae gan y Contractwr gyfrifoldeb i sicrhau bod y cyfarpar a gyflenwir yn bodloni meini prawf y sbectol fach.  Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod dimensiynau'r gwneuthurwr yn gywir.

Gall addasu helaeth fod yn berthnasol i'r ffrâm neu'r lensys.  Dylid anodi tystiolaeth o addasu ar gofnod y claf.  Dylid cadw'r archebion am y ffrâm, y lensys a/neu'r addasiad fel tystiolaeth.

Mae'r tâl atodol yn daladwy yn ychwanegol at y daleb/talebau priodol.

Os oes angen trwsio neu amnewid ffrâm, mae'r tâl atodol hefyd yn daladwy yn ogystal â thaleb trwsio neu amnewid.  Dylai'r hawliad fod yr isaf o bris manwerthu'r sbectol / gwaith trwsio, neu swm y daleb a'r tâl atodol.

## ATODIAD NODWEDDION WYNEB ARBENNIG

Os oes angen i unrhyw glaf sy'n gymwys i gael teclyn optegol a ariennir gan y GIG gael ffrâm sbectol wedi ei gwneud yn arbennig neu ei haddasu'n benodol oherwydd nodweddion ei wyneb, gellir rhoi Atodiad Nodweddion Wyneb Arbennig i helpu tuag at y gost.  Mae'n rhaid darparu ffrâm arbenigol ar gyfer angen clinigol yn hytrach na dewis.  Mae'r tâl atodol yn daladwy yn ychwanegol at y daleb briodol.  Gall ysbyty neu ddarparwr Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol (GOS) roi'r daleb hon.

Os oes angen trwsio neu amnewid ffrâm, mae'r tâl atodol hefyd yn daladwy yn ogystal â thaleb trwsio neu amnewid.  Dylai'r hawliad fod yr isaf o bris manwerthu'r sbectol / gwaith trwsio, neu swm y daleb a'r tâl atodol.

# Hawlio

*Rhaid i'r Cyflenwr gadw cofnodion cywir o'r dyfeisiau optegol a gyflenwir o dan reoliadau WGOS a thalebau.*

*Gall y claf gyfnewid taleb GIG fel grant tuag at sbectol neu lensys cyffwrdd gan y cyflenwr o'i ddewis.*

*Rhaid i'r Cyflenwr hawlio'r isaf o naill ai werth priodol y daleb  neu'r pris manwerthu a gall y claf ddewis sut i ddefnyddio'r daleb.*

*Dylid cyflwyno talebau'n rheolaidd ar gyfer derbyn tâl.*

- I hawlio am sbectol/lensys cyffwrdd sydd wedi'u rhoi drwy WGOS, dylid llenwi ffurflen GOS 3W
- Gall y Contractwr hawlio'r isaf o naill ai werth priodol y daleb  neu'r pris manwerthu.
- Os yw claf yn talu am lensys cyffwrdd untro neu rai y cynlluniwyd eu hamnewid fesul rhandal, gellir derbyn taleb GOS 3W yn lle nifer o daliadau hyd at werth y daleb.
- Dylid cyflwyno hawliadau GOS 3W wedi'u cwblhau i PCGC yn rheolaidd i'w talu ac o fewn 3 mis i ddyddiad casglu'r sbectol / lensys cyffwrdd
- Os yw claf wedi ymrwymo i gontract ar gyfer cyflenwi lensys cyffwrdd tafladwy neu rai y cynlluniwyd eu hamnewid, gellir cyflwyno'r daleb i'w thalu unwaith y bydd y set gyntaf o lensys wedi'u casglu

## TYSTYSGRIFAU HC3

- Os yw cyfraniad y claf (a ddangosir ym Mlwch B ar y dystysgrif HC3) yn fwy na'r daleb Optegol WGOS y mae ganddo hawl iddi, ni all y claf gael unrhyw gymorth tuag at gost ei sbectol / lensys cyffwrdd
- Pan fo'r claf yn gymwys i gael cymorth rhannol, mae gwerth y daleb a roddir yn cael ei leihau gan gyfraniad y claf (a ddangosir ym Mlwch B ar y dystysgrif HC3)

## SBECTOL / LENSYS CYFFWRDD HEB EU CASGLU

Mae'n rhesymol i Gontractwr gyflwyno hawliad am daleb mewn perthynas ag offer heb eu casglu dri mis ar ôl archebu'r sbectol / lensys cyffwrdd. Ystyrir ei bod yn arfer da, ond nid yw'n ofyniad yn y Telerau Gwasanaeth na'r rheoliadau GOS, i'r Contractwr sicrhau bod cofnod yn bodoli i ddangos bod y cleifion wedi cael eu hysbysu. Mae PCGC o’r farn ei bod yn rhesymol gwneud o leiaf ddwy ymgais i gysylltu â’r claf.

Lle na fydd y claf yn casglu ei sbectol neu ei lensys cyffwrdd, dylai'r Contractwr hawlio pris manwerthu neu werth priodol y daleb, pa un bynnag yw'r isaf am y sbectol neu'r lensys cyffwrdd. Dylid anodi'r ffurflen hawlio GOS3 W gyda'r geiriau 'sbectol/lensys cyswllt heb eu casglu' a'r dyddiad y cyflwynir y ffurflen.

Os bydd claf yn marw cyn casglu'r sbectol neu'r lensys cyffwrdd, dylai'r Contractwr anodi'r GOS 3W â'r geiriau 'claf wedi marw'. Dylid dyddio'r ffurflen i gynrychioli'r dyddiad y gwneir yr hawliad h.y. dyddiad cyflwyno.

### AIL-WYDRO LENSYS I FFRÂM SY'N BODOLI EISOES

Wrth ail-wydro ffrâm claf cymwys gyda phresgripsiwn newydd, dylech hawlio gwerth priodol y daleb neu'ch pris manwerthu arferol i gleifion preifat ar gyfer cyflenwi a gosod y lensys, pa un bynnag yw'r isaf.

Os mai dim ond un lens sy'n cael ei hail-wydro, dylid hawlio gwerth priodol y daleb neu'r pris manwerthu preifat ar gyfer y lens honno, pa un bynnag yw'r isaf.

## Trwsio ac Amnewid

*Mae angen cymeradwyaeth gan PCGC i drwsio / amnewid sbectol oedolyn.*

*Ni ellir defnyddio taleb trwsio / amnewid i drwsio/ amnewid lensys cyffwrdd.*

*Dylai Cyflenwr hawlio am y rhannau angenrheidiol ar gyfer trwsio/amnewid y sbectol yn unig.*

*Dylai'r Cyflenwr gadw cofnodion gyda’r dyddiad arnynt o'r hyn sydd wedi'i drwsio/amnewid.*

*Dim ond y sbectol ddiweddaraf y gall y Cyflenwr ei thrwsio/amnewid.*

*Mae sbectol sbâr neu ail sbectol a awdurdodwyd gan PCGC neu a ragnodwyd gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn gymwys ar gyfer eu trwsio / amnewid.*

*Cymhwysedd*

- Mae gan y cleifion canlynol hawl i gael trwsio neu amnewid eu sbectol ddiweddaraf a ariannwyd gan y GIG, o ganlyniad i'w cholli neu ei difrodi heb ganiatâd PCGC o flaen llaw:
    - Plant dan 16 oed
    - Myfyrwyr llawn amser 16, 17 neu 18 oed
    - Pobl sy'n gadael gofal o dan 18 oed
    - Dan 18 ac yng ngofal Awdurdod Lleol
- Mae pob claf arall yn gymwys i gael trwsio neu amnewid eu sbectol ddiweddaraf a ariannwyd gan y GIG dim ond os ydynt yn dal yn gymwys i gael sbectol a ariannir gan y GIG a chyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan PCGC drwy e-bostio nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk gyda manylion y claf, y rheswm am yr eithriad a'r rheswm meddygol dros y golled/difrod
- Ni ellir cyflwyno ffurflen GOS4 W ar gyfer ail sbectol yr un pryd â ffurflen GOS3 W. Gellir defnyddio ffurflenni GOS 4W i drwsio neu amnewid y sbectol bresennol ac nid sbectol hŷn. Mae presgripsiwn newydd yn cyfiawnhau ffurflen GOS3 W
- Pan fydd gan glaf ail sbectol sydd wedi'i hawdurdodi gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) neu PCGC, gellir trwsio'r ddwy sbectol.
- Lle mae sbectol wedi'i diogelu gan bolisi yswiriant neu warant gwneuthurwr, ni chaniateir cais WGOS am drwsio / amnewid.
- Ni ellir defnyddio GOS 4W ar gyfer mân waith trwsio na fyddai'r Cyflenwr fel arfer yn codi tâl amdanynt
- Ni ellir defnyddio GOS 4W i drwsio / amnewid lensys cyffwrdd

## *Hawlio*

Gellir gwneud gwaith trwsio ac amnewid ar gyfer cleifion cymwys trwy lenwi ffurflen hawlio GOS 4W.

Wrth gwblhau GOS 4W ***rhaid*** i'r Contractwr sicrhau:

- Bod cymhwyster y claf i gael gwaith trwsio neu amnewid wedi'i wneud yn cael ei wirio cyn hawlio
- Bod y gwaith trwsio neu amnewid yn seiliedig ar bresgripsiwn dilys
- Cedwir cofnodion dyddiedig o waith trwsio neu amnewid yr hawlir talebau ar eu cyfer, gan nodi pa sbectol sy'n cael ei thrwsio neu ei hamnewid a'r rheswm dros ei thrwsio neu ei hamnewid e.e. wedi colli sbectol, fframiau wedi'u difrodi y tu hwnt i'w trwsio.
- Bod y ffurflen GOS 4W wedi'i hanodi gyda'r rheswm dros y gwaith trwsio / amnewid
- Ei fod yn hawlio'r isaf o bris manwerthu'r trwsio / amnewid neu'r daleb trwsio ac amnewid ar gyfer yr eitem(au) y mae wedi'u trwsio / amnewid

Os yw'r hawliad ar gyfer trwsio / amnewid sbectol ar gyfer oedolyn (18 oed a hŷn) sydd wedi'i gymeradwyo gan PCGC ymlaen llaw, rhaid i'r hawliad a'r cofnod gynnwys rhif galw pwynt gweithredu'r cymeradwyo.

# Sbectolau Sbâr

*Nid oes gan unrhyw glaf hawl awtomatig i sbectol sbâr.*

*Gall Perfformiwr neu Gyflenwr ofyn am sbectol sbâr i glaf trwy gysylltu â PCGC*

*Os cymeradwyir sbectol sbâr dylid defnyddio GOSW 3 i wneud y cais.*

*Gellir defnyddio GOSW 4 ar gyfer trwsio prif sbectol neu sbectol sbâr*

## *Cymhwysedd*

Nid oes gan unrhyw glaf hawl awtomatig i sbectol sbâr (ail sbectol) i'r un presgripsiwn. Gall Perfformiwr neu Gyflenwr ofyn am ganiatâd gan PCGC i gyflenwi ail sbectol. Bydd PCGC yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun ac mewn amgylchiadau eithriadol, gall PCGC awdurdodi cyflenwi ail sbectol. Gallai amgylchiadau eithriadol gynnwys cryfder lensys y claf, natur unrhyw gyflwr meddygol ac, yn achos plant, eu hoedran a thystiolaeth gan riant.

Nid yw cleifion sydd dan ofal Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) ar hyn o bryd ar gyfer eu prawf golwg / plygiant yn gymwys i gael sbectol sbâr o dan WGOS. Os oes angen sbectol sbâr ar glaf sydd dan ofal y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) ar gyfer ei brawf golwg / plygiant, dylid ei gyfeirio at yr HES.

## *Proses*

Mae'r sawl sy'n cofrestru yn llenwi ffurflen ar-lein. Mae Ymgynghorwyr Optometrig PCGC yn adolygu'r cais. Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd PCGC yn anfon ffurflen GOS 3W â chod unigryw iddi at y Contractwr.

Unwaith y bydd y claf wedi casglu ei Sbectol Sbâr, dylid hawlio'r ffurflen GOS 3W â chod unigryw arni yn yr un modd â GOS 3W 'arferol'.

---

**NODYN** Os cymeradwyir claf i gael sbectol sbâr ar un achlysur, nid yw hyn yn golygu'n awtomatig y bydd ganddo hawl os a phryd y cyflwynir cais arall.

# Talebau a roddir gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty

*Mae'r cymhwyster ar gyfer talebau a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) yr un fath ag ar gyfer Talebau WGOS.*

*Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau bod y claf yn dal yn gymwys ar adeg cyflenwi'r teclyn optegol.*

*Mae gwerthoedd categorïau talebau HES yr un fath â thalebau WGOS.*

*Ni ellir trawsosod talebau HES, ond gellir gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â Phellter Fertig Cefn (BVD).*

*Anfonir ffurflenni hawlio i'r Ysbyty i'w cymeradwyo ac nid at PCGC.*

*Nid yw cleifion sydd dan ofal HES ar gyfer eu prawf golwg / plygiant yn gymwys i gael sbectol sbâr o dan WGOS.*

## CYMHWYSEDD

Rhoddir talebau HES gan yr Ysbyty i gleifion cymwys.

## DOSBARTHU

Gellir rhoi ffurflen HES (P) sy'n rhoi manylion eu presgripsiwn sbectol i gleifion sy'n cael prawf golwg / plygiant yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty. Os yw'r claf yn gymwys i gael cymorth tuag at gost ei sbectol / lensys cyffwrdd, bydd yn cael ffurflen HES 3.

Os yw’r claf yn cael prawf golwg fel rhan o’r gwaith o reoli ei gyflwr yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty a bod y rhagnodwr yn barnu bod angen lensys yn glinigol, ond nad yw’r claf yn gymwys i gael taleb WGOS, gallai’r claf elwa ar y trefniadau tâl uchaf. Gofynnir i gleifion sy'n dymuno manteisio ar y trefniadau hyn, lle bo'n briodol, ddewis cael eu cyflenwi o fewn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty neu mewn practis optometreg sydd wedi'i gontractio i ddarparu'r gwasanaeth.

## DEWIS Y GWERTH TALEB CYWIR

Yn wahanol i dalebau WGOS (a thalebau GOS a gyhoeddir yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), ni ddylid trawsosod presgripsiynau o’r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbytai (HES) a dylid eu hawlio yn seiliedig ar eu fformat gwreiddiol. Gall y Contractwr gysylltu â'r rhagnodwr a all gytuno i roi HES3 newydd gyda phresgripsiwn diwygiedig os byddai hyn yn darparu taleb gwerth uwch ac o fudd i'r claf.

Pan fo gan y claf hawl, gall y sawl sy’n cofrestru o’r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ychwanegu Atodiad Lensys sydd wedi'u Teilwra’n Bwrpasol ar gyfer Plentyn ar yr adeg cyflenwi.

Dylech anodi'r ffurflen HES3 gyda'r geiriau 'newid BVD' yn yr ymyl, os oes rhaid i chi newid presgripsiwn oherwydd newid yn y pellter fertig cefn. Os oes angen band taleb uwch ar gyfer y newid, dylech anodi ffurflen taleb y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) yn unol â hynny.

### HAWLIO

I hawlio taleb a roddwyd gan y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty, rhaid i'r Cyflenwr ei hanfon i'r Ysbyty sy'n ei rhoi ar gyfer eu hawdurdodi.

### GWAITH TRWSIO AC AMNEWID

Gall cleifion a gafodd eu sbectol, oedd wedi'u hariannu gan y GIG, drwy ffurflen HES3, o dan rai amgylchiadau, hawlio ei thrwsio dan WGOS (cyfeiriwch at yr adran Trwsio ac Amnewid).

Mewn achosion eithriadol, lle mae'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty (HES) wedi rhoi dau bâr o'r un presgripsiwn, gellir trwsio'r ddau os oes angen.

### SBECTOLAU SBÂR

Fel arfer, os yw Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn ystyried bod ail sbectol yn briodol, y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty fydd yn talu cost y daleb. Ni all cleifion o dan ofal Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty wneud cais am ail sbectol a ariennir gan WGOS.

## Talebau'r Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) a roddwyd mewn mannau eraill yn y DU

Pan fydd claf wedi cael prawf golwg a ariennir gan y GIG mewn rhan arall o'r DU a'i fod yn gymwys i gael cymorth tuag at gost ei declyn optegol, bydd yn cael taleb GOS 3 gan y genedl honno. Dylid trin y daleb GOS 3 hon yn yr un modd â Thalebau Optegol WGOS ym mhob ffordd o ran y cyngor yn yr adrannau uchod. Disgwylir i'r daleb gael ei haddasu a'i hanodi'n unol â chanllawiau Talebau Optegol WGOS, yn ymwneud â:

- Y math o daleb
- Y ffi hawlio
- Prosesu'r hawliad

### DEWIS Y GWERTH TALEB CYWIR

Pan fo gan y claf hawl, gall y sawl sy'n cofrestru o'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ychwanegu Atodiad Lensys sydd wedi'u Teilwra'n Bwrpasol ar gyfer Plentyn ar yr adeg cyflenwi.

## HAWLIO

Dylid prosesu taleb GOS 3 yn yr un modd â thaleb GOS 3W.

## GWAITH TRWSIO AC AMNEWID

Cyfeiriwch at yr adran Trwsio ac Amnewid.

## SBECTOLAU SBÂR

Cyfeiriwch at yr adran Sbectolau Sbâr.